

Agenda

Teitl y Cyfarfod: Cyfarfod Cyhoeddus Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod: Dydd Iau 16 Tachwedd 2023

Amser y cyfarfod: 09:30 – 12:25

Lleoliad: Microsoft Teams

Ymunwch â ni drwy'ch cyfrifiadur, ap symudol neu ddyfais ystafell

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

[Lawrlwytho Teams](#) | [Ymuno ar-lein](#)

Neu ffoniwch (sain yn unig)

[+44 29 2105 5545,75827786#](tel:+44292105554575827786) Caerdydd

Amser	Eitem
-------	-------

09:30	Eitem 1. Agor y cyfarfod
--------------	---------------------------------

5 munud

- Croeso
- Datgan buddiannau
- Egluro dull cynnal y cyfarfod

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

09:35	Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu
--------------	-----------------------------------------------------------

5 munud

2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 21 Medi

2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r cofnod gweithredu.

09:40
5 munud

Eitem 3. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw

Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd.

09:45
15 munud

Eitem 4. Adroddiad y Prif Weithredwr

Noddwr a chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Crynodeb: NODI'r sefyllfa gyfredol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau allweddol.

Cyfeirnod y papur: 23-11-B10

10:00
20 mun

Eitem 5. Diweddarau Adroddiadau o Bwyllgorau a Fforymau (yn ddi-eithriad)

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y pwyllgorau

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – 9 Hydref

Cyfeirnod y papur: 23-11-B11

Y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth – 24 Hydref

Cyfeirnod y papur: 23-11-B12

Y Pwyllgor Cyllid – 19 Hydref

Cyfeirnod y papur: 23-11-B13

Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – 5 Hydref

Cyfeirnod y papur: 23-11-B14

Y Pwyllgor Ystad Tir – 26 Hydref

Cyfeirnod y papur: 23-11-B15

Y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – 3 Hydref

Cyfeirnod y papur: 23-11-B16

Diweddariadau Fforwm

Fforwm Rheoli Tir Cymru

Cyfeirnod y papur: 23-11-B17

Fforwm Pysgodfeydd Cymru

Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru

Crynodeb: NODI'R diweddariadau gan bwyllgorau'r Bwrdd, o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd a thu hwnt.

10:20

25 munud

**Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Cyllid ac Adolygiad
Cyllideb Canol Blwyddyn**

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol
Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid
Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

Crynodeb: Cymeradwyo'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf

Cyfeirnod y papur: 23-11-B19

10:45

15 munud

Egwyl

11:00

30 munud

Eitem 7. Natur a Ni

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu
Corfforaethol
Cyflwynydd: Russell De'Ath, Uwch Gynghorydd Arbenigol, Gweledigaeth
2050; Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorrfforaethol a PMO

Crynodeb: Cymeradwyo ymateb CNC i Weledigaeth Natur a Ni

Cyfeirnod y papur: 23-11-B20

11:30

20 mun

**Eitem 8. Adroddiad Chwarter 2 Dangosfwrdd
Perfformiad y Cynllun Busnes ac Adroddiad
Chwarter 2 Perfformiad Mewnol**

Noddwr a chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Yn bresennol: Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth
Gorrfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni; Sue Ginley,
Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a
Pherfformiad

**Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Chwarter 2
Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ac Adroddiad
Chwarter 2 Perfformiad Mewnol**

Cyfeirnod y papur: 23-11-B21

11:50

10 munud

**Eitem 9. Ailgysoni Strwythur a Threfniadau Llywodraethu
CNC yn dilyn lansio'r Cynllun Corfforaethol Newydd**

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu
Corfforaethol

Cyflwynydd: Victoria Painter, Pennaeth Llywodraethu Dros Dro ac
Ysgrifennydd y Bwrdd

**Crynodeb: CYMERADWYO'R Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y
Bwrdd, y Pwyllgorau a'r Tîm Gweithredol. NODI'r gwaith ar gysoni'r
strwythur llywodraethu a'r trefniadau i'r Cynllun Corfforaethol.**

Cyfeirnod y papur: 23-11-B22

12:00
5 munud

Eitem 10. Unrhyw fater arall

12:05

Diwedd y cyfarfod

12:05

Sesiwn holi ac ateb cyhoeddus

20 mun

12:25

Diwedd y cyfarfod cyhoeddus

Cofnodion heb eu Cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus Down to Earth, Gŵyr a Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	21 Medi 2023
Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:	Syr David Henshaw, Cadeirydd Clare Pillman, Prif Weithredwr Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd Geraint Davies Yr Athro Rhys Jones Mark McKenna Helen Pittaway Dr Rosie Plummer Yr Athro Peter Rigby
Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Victoria Rose-Piper, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Busnes ac Adfywio, yn dirprwyo ar ran Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Unigolion Ychwanegol a oedd yn bresennol:	Victoria Painter, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro (yr holl eitemau) Andrea Morgan, Rheolwr Tîm Cyllid Busnes 1 (Eitem 6) Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni (Eitem 7) Kirsten Hughes, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad (Eitem 7) Sue Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad (Eitem 7) Sioni Davies, Cynghorydd, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad (Eitem 7)
Arsyllwyr CNC:	Jacqui Kedward, Pennaeth Archwilio Mewnol Stella Gwynne, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Llywodraethu Kate Evans, Rheolwr, Materion Cyhoeddus / Ysgrifennydd Preifat i'r Prif Weithredwr (Eitemau 7 i 9)
Arsyllwyr Cyhoeddus:	Kim Waters – Undeb Afonydd Cymru Catherine Linstum, Cyfeillion Gwastadeddau Gwent

Datganiadau:	<ul style="list-style-type: none"> • Dr Rosie Plummer - Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - rhyngweithiadau eang sy'n berthnasol i'r agenda, gan gynnwys dynodi tirwedd ac amddiffyniadau'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys afonydd ACA, parthau Morol, a materion cynllunio, derbynnydd grantiau amrywiol a chydweithredwr; Ymddiriedolwr Plantlife - rhan o'r prosiect Natur am Byth a derbynnydd grantiau/cydweithrediadau eraill. • Yr Athro Steve Ormerod – Is-lywydd yr RSPB (dim dylanwad ar bolisi); Datganiad newydd – Cymrawd y Gymdeithas Entomolegol Frenhinol • Mark McKenna – Prif Swyddog Gweithredol Down to Earth, lleoliad cyfarfod y Bwrdd; Partneriaeth gymunedol Skyline gyda Down to Earth a ariennir drwy Gronfa Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd y Loteri Genedlaethol • Geraint Davies – Mentor gyda Cyswllt Ffermio; Cydymaith Canolfan Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran
Ymddiheuriadau:	<p>Yr Athro Peter Fox Yr Athro Calvin Jones Lesley Jones Kath Palmer Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Danielle Phillips, Chwarae Teg</p>
Ysgrifenyddiaeth:	<p>Jocelyn Benger Natalie Williams</p>

Eitem 1. Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb. Nodwyd datganiadau o ddiddordeb ac ymddiheuriadau fel uchod.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu

2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf.

2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu

3. Adolygwyd a nodwyd y cofnod gweithredu.

Eitem 3. Diweddariad gan y Cadeirydd

4. Nododd y Cadeirydd ddyfnder y trafodaethau yn sesiwn strategol y Bwrdd y diwrnod blaenorol.
5. Roedd ymgysylltiad yr hydref â Gweinidogion ar fin cychwyn. Nodwyd yr amseroedd ariannol anodd.

6. Byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Tachwedd yn un rithwir. Roedd y prysurdeb mewn dyddiaduron ym mis Medi yn cael ei ystyried ac roedd adolygiad yn cael ei gynnal ar gyfer 2024. Nodwyd Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Hydref.
7. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith mai hwn oedd cyfarfod Bwrdd olaf yr Athro Peter Rigby ac estynnodd ei werthfawrogiad a'i ddiolch diffuant am gyfraniad enfawr a chynghor doeth yr Athro Rigby fel aelod o'r Bwrdd. Estynnodd y Prif Weithredwr ddiolch hefyd ar ran y Tîm Gweithredol am waith ac arweinyddiaeth yr Athro Rigby ar dystiolaeth.

Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

8. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar eitemau yn ychwanegol at yr adroddiad ysgrifenedig.
9. Roedd cyfarfod wedi'i gynnal gydag Ystad Grosvenor ac un o'i hymddiriedolwyr, y Fonesig Fiona Reynolds, ym Mynydd Helygain yn edrych ar bwysigrwydd y safle a datblygu'r berthynas yno. Roedd y Prif Weithredwr wedi rhoi araith yng Nghynhadledd Amgylchedd Iwerddon, a oedd wedi bod yn ddigwyddiad da yn gweithio gyda chydweithwyr o bob rhan o Iwerddon. Roedd y digwyddiad wedi canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, ochr yn ochr â materion ansawdd dŵr a'r agenda bioamrywiaeth. Y mis hwn, byddai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (EPP) yn mynychu Cyfarfod Llawn Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd Ewropeaidd yn Helsinki a byddai'r Prif Weithredwr yn cyfarfod â Chyrrff Cadwraeth Natur y DU a'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC).
10. Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa a phwysau'r gyllideb. Roedd recriwtio wedi'i rewi ers mis Awst a byddai'n parhau hyd at fis Hydref i ganiatáu amser i gael eglurder ar y blaenoriaethau a'r pwysau. Byddai'r flwyddyn nesaf yn fwy heriol, gyda chwyddiant yn gyffredinol a Llywodraeth Cymru yn chwilio am arbedion gan CNC. Byddai'r Pwyllgor Cyllid a'r Bwrdd yn cael eu diweddarau.
11. Roedd y prosiectau Rheoli Perygl Llifogydd mawr yn Rhydaman a Stryd Stephenson yn mynd rhagddynt yn dda. Nodwyd bod y rhain yn mynd rhagddynt yn gynt na'r disgwyl, a'u bod o flaen y gyllideb hefyd. Roedd hyn yn cael ei fonitro a'i adolygu.
12. Roedd yr Adroddiad gan yr Athro Elwen Evans KC ar Llifogydd 2020-21 wedi cael ei gyhoeddi. Roedd hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr Adroddiadau Adran 19 a gynhyrchwyd gan yr awdurdodau lleol ac wedi gwneud argymhellion ar sut y gellid gwella'r rhain yn y dyfodol. Nodwyd nad oedd angen i CNC gymryd unrhyw gamau pellach.
13. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol. Nodwyd y plannu cydbwyso a'r dull rheoli tir ar Fferm Bovil. Holwyd a oedd cyfleoedd ymgysylltu addysgol a chymunedol yn codi yn y maes hwn. Awgrymwyd y gellid ystyried hyn drwy'r Pwyllgor Ystad Tir.

CAM GWEITHREDU: Cadeirydd LEC i ystyried eitem ar gyfleoedd ymgysylltu addysgol a chymunedol sy'n codi o ganlyniad i blannu cydbwyso

14. Nodwyd y diweddariad ar orfodaeth a chwestiynwyd pryd y byddai adroddiad manylach ar dueddiadau ar gael. Esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol EPP fod hyn wedi'i gynllunio

ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y ddarpariaeth o wybodaeth fanylach.

Eitem 5. Adroddiadau Diweddarau Pwyllgorau a Fforymau

15. Rhoddodd Dr Rosie Plummer, a oedd yn dirprwyo ar ran Kath Palmer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), ddiweddariad i'r Bwrdd ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi. Nodwyd diweddariad Archwilio Cymru ar yr archwiliad o'r cyfrifon terfynol. Roedd dau fater heb eu datrys ar gyfer y cyfrifon terfynol, felly byddai'r gymeradwyaeth o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cael ei gohirio. Derbyniwyd diweddariad ar y gwaith gwrth-dwyll. Cynhaliwyd archwiliad dwfn ar ailddatblygu'r Gofrestr Risg Strategol a byddai'r drafft terfynol yn dychwelyd i ARAC cyn ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Nodwyd terminoleg newydd a newidiadau i'r polisi ar gyfer Codi Pryder Difrifol er Budd y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban). Derbyniwyd chwe Adroddiad Archwilio Mewnol a nodwyd cynnydd da gyda thri safbwynt Sylweddol a thri safbwynt Cymedrol. Byddai rhai materion trawsbynciol gyda'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yn cael eu codi yn y cyfarfod nesaf. Adolygwyd y Cylch Gorchwyl ar gyfer ARAC. Estynnwyd diolch i'r Athro Peter Rigby am ei gyfraniad at ARAC. Cynhaliwyd sesiwn gaeedig gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol.
16. Rhoddodd yr Athro Peter Rigby, Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth (EAC) ddiweddariad. Roedd EAC i fod i gyfarfod eto ym mis Hydref. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar adnewyddu aelodaeth y Pwyllgor.
17. Rhoddodd Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (FC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref. Cafwyd agenda lawn, a byddai llawer o'r manylion yn dilyn yn sesiwn breifat y Bwrdd. Darparwyd sicrwydd bod FC wedi craffu ar yr eitemau ariannol i'w hystyried gan y Bwrdd.
18. Cadarnhaodd Geraint Davies, a oedd yn dirprwyo ar ran yr Athro Pete Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC), y byddai cyfarfod nesaf FRMC yn cael ei gynnal ar 5 Hydref.
19. Rhoddodd Mark McKenna, a oedd yn dirprwyo ar ran yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir (LEC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y gwaith ers y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 5 Mai. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 26 Hydref ac roedd yr agenda wedi'i pharatoi. Byddai Wood Knowledge Wales yn bresennol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n codi o Archwiliad Dwfn Llywodraeth Cymru ar Goed a Phren.
20. Rhoddodd Mark McKenna, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi. Hwn oedd y cyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb a diolchwyd i bawb a fu'n rhan o'r gwaith o drefnu hyn. Roedd gweithdy wedi'i gynnal ar ddeall taith cwsmeriaid CNC. Yn y cyfarfod ffurfiol, craffwyd ar yr Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chymeradwyaethau ac Adroddiad Iechyd, Diogelwch a Lles Chwarter 1. Byddai sgwrs fanylach ar ddiogelwch ymwelwyr yn ardal y rhaeadr yn dilyn. Ystyriwyd ailddatblygu'r Gofrestr Risg Strategol. Cynhaliwyd trafodaeth ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) a byddai Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu yn dilyn hyn. Adolygwyd y Cylch Gorchwyl ar gyfer PCC a chynhaliwyd sgwrs ar feysydd gorgyffwrdd gydag LEC. Roedd eitem strategol fanwl ar y Gymraeg yn CNC, a chytunwyd i fynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth. Cafodd fformat newydd ei dreialu ar gyfer papurau gwybodaeth, a chafodd dderbyniad gwresog.

21. Cadarnhaodd Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC), y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 3 Hydref.
22. Rhoddodd yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol (RAC) a nodwyd bod yr aelodaeth yn cynnwys pob math o arbenigedd. Roedd trafodaeth wedi'i chynnal ynghylch a ellid ychwanegu at rôl y Pwyllgor i gyfrannu at CNC yn ei gyfanrwydd a WLMF.
23. Nododd yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WFF) a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF), nad oedd y naill Fforwm na'r llall wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Roedd symposiwm arbenigol sy'n edrych ar frithyll môr wedi'i gynnal, a chafwyd cyflwyniad gan CNC. Nodwyd marwolaeth yr arbenigwr brithyllod môr Dr Graeme Harris, a phwysleisiwyd ei gyfraniad a'i ymroddiad i gadwraeth brithyllod môr.
24. Nododd Geraint Davies, Cadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (NAFW), y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 7 Tachwedd yng Nghaerdydd.

Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Ariannol

Cyflwynydd: Andrea Morgan, Rheolwr Tîm Cyllid Busnes 1

25. Cyflwynodd Rheolwr Tîm Cyllid Busnes 1 yr eitem a rhoddodd drosolwg o'r papur, gan nodi'r Adroddiad fel yr oedd ar ddiwedd mis Gorffennaf. Roedd y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Cyllid wedi craffu ar hyn. Roedd yr incwm wedi gostwng o £266.3 miliwn i £264.9 miliwn yn bennaf oherwydd y newid mewn proffil yn ymwneud â phrosiectau a ariennir yn allanol. Roedd y rhagolygon gwariant wedi newid rhwng costau staff a di-staff, a rhestrwyd y newidiadau hyn yn fanylach ar dudalen 5 o'r Adroddiad. Darparwyd trosolwg o'r perfformiad ariannol ar incwm. Nodwyd y byddai incwm pren yn cael ei ail-ragweld yn dilyn haf tawelach na'r disgwyl. Roedd y gostyngiad yn debygol o fod tua £4 miliwn. Roedd ymarfer hanfodol yn digwydd ar adolygu cyllidebau staff yn ystod y broses o rewi recriwtio. Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Stiwardiaeth Tir i fonitro perfformiad ar orwariant. Roedd gor-raglennu yn y Rhaglen Cyfalaf Llifogydd yn cael ei adolygu i leihau hyn, a byddai hyn yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd o orwariant y llynedd. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r rhagolwg diwygiedig o £264.9 miliwn.
26. Dywedodd Helen Pittaway, Cadeirydd FC, fod yr Adroddiad wedi'i graffu yn FC a bod y sefyllfa ariannol yn newid yn gyson. Nodwyd bod y materion gyda'r Rhaglen Cyfalaf Llifogydd yn gorfod cael eu trafod eto, a chydabuwyd yr anawsterau.
27. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Nodwyd y broses o rewi recriwtio ac anogwyd pwyll yn y ffordd y cafodd ei ymestyn i brosiectau a ariennir yn allanol, gan gydnabod ei bod yn bwysig peidio ag oedi cynnydd ar y rhain. Nododd y Prif Weithredwr fod y Grŵp Cynllunio ac Adnoddau (PRG) yn adolygu hyn. Amlygwyd y byddai angen i bob prosiect edrych ar eu rhaglenni wrth i gyllid dynhau i'r dyfodol.
28. Cymeradwyodd y Bwrdd y newid yn y gyllideb wreiddiol o £266.3 miliwn i £264.9 miliwn a nododd y perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2023.

CYMERADWYWYD: Y newid yn y gyllideb wreiddiol o £266.3 miliwn i £264.9 miliwn a ragwelir.

Eitem 7. Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes Chwarter 1 ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Chwarter 1

Nodwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

29. Cyflwynodd y Prif Weithredwr Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ar gyfer Chwarter 1 (Ch1). Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Nodwyd y trafodaethau yn sesiwn strategol y diwrnod blaenorol ynghylch datblygu set newydd o Ddangosyddion Strategol a Gweithredol. Roedd y Dangosfwrdd Cynllun Busnes presennol yn adlewyrchu mesurau a gariwyd ymlaen o 2022/23 i raddau helaeth, a drefnwyd o amgylch y tri Amcan Llesiant newydd nes bod y fframwaith perfformiad newydd ar waith.
30. Adroddwyd statws Coch Oren Gwyrdd (RAG) y mesurau fel a ganlyn: 20 Gwyrdd, 2 Oren, 0 Coch. Disgrifiwyd y ddau fesur a raddiwyd fel rhai Oren a phwysleisiwyd nifer y mesurau a raddiwyd fel rhai Gwyrdd. Nodwyd ei bod yn debygol y bydd mwy o fesurau Oren ar y Dangosfwrdd wrth symud ymlaen oherwydd y cyfyngiadau ariannol. Cynhaliwyd sesiwn gyda Llywodraeth Cymru ar yr Adroddiad Perfformiad, a oedd wedi canolbwyntio ar greu coetiroedd. Nodwyd bod yna densiynau o ran yr hyn a oedd yn gyraeddadwy o fewn y gyllideb, er bod hyder y byddai'r mesur ar greu coetiroedd yn cael ei gyflawni. Cyflwynwyd Adroddiad Perfformiad Mewnol Ch1 a nodwyd y mesurau fel a ganlyn: 8 Gwyrdd, 0 Oren, 2 Coch, 1 Heb ei adrodd. Disgrifiwyd y ddau fesur Coch. Esboniwyd bod y mesurau ar adrodd datganiadau o ddiddordeb yn ymwneud â datganiadau staff ar y system reoli fewnol.
31. Trafododd aelodau'r Bwrdd yr Adroddiad, gan nodi pwysigrwydd y Dangosyddion Strategol a Gweithredol newydd a oedd yn cael eu datblygu. Roedd angen i'r targedau newydd a oedd yn cael eu gosod fod yn ddigon ymestynnol a chydabod na fyddai'r mesurau bob amser yn Wyrdd. Tynnwyd sylw at y sgysiau o sesiynau strategol y diwrnod blaenorol, gan nodi'r angen i sicrhau bod y pethau cywir yn cael eu mesur a'u monitro.
32. Cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes Ch1 ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Ch1.

CYMERADWYWYD: Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes Ch1 ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Ch1

Eitem 8. Aelodaeth Pwyllgor y Bwrdd

Cyflwynydd: Victoria Painter, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro

33. Rhoddodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro drosolwg o'r gwelliannau i aelodaeth Pwyllgor y Bwrdd fel y manylir yn y papur. Disgrifiwyd y tair elfen ynghylch gosod aelod newydd o'r Bwrdd ar y Pwyllgorau, aelodaeth EAC a Chylch Gorchwyl Grŵp y Cadeiryddion.
34. Nododd y Cadeirydd y byddai'r Athro Steve Ormerod yn camu'n ôl o gadeirio'r Grŵp Sector Galluogi'r Sefydliad Anllywodraethol Amgylcheddol (eNGO) ac roedd Lesley Jones wedi cytuno i gymryd yr awenau fel cadeirydd. Cytunodd y Bwrdd i'r cynnig hwn.

CYTUNWYD: Lesley Jones i gymryd yr awenau fel Cadeirydd y Grŵp Sector Galluogi'r eNGO gan yr Athro Steve Ormerod

35. Trafododd y Bwrdd y Cylich Gorchwyl ar gyfer Grŵp y Cadeiryddion. Eglurwyd bod hwn yn fecanwaith ar gyfer trefnu a rheoli busnes ar draws y Pwyllgorau. Argymhellodd

aelodau'r Bwrdd y dylid agor aelodaeth y Grŵp i gynnwys holl aelodau'r Bwrdd ac y dylid newid yr enw i adlewyrchu hyn. Cynigiwyd enwau amgen posibl, gan gynnwys newid i 'Grŵp y Cadeirydd'. Cynigiwyd y dylai ddiwydd ar ôl pob cyfarfod Bwrdd i ystyried unrhyw eitemau sy'n codi o'r cyfarfod.

36. Ystyriwyd aelodaeth EAC. Roedd y Bwrdd eisoes wedi cymeradwyo'r cynnydd mewn aelodaeth i tua deg. Gwahoddwyd pedwar aelod newydd i sicrhau arbenigedd eang. Roedd tri wedi ymateb yn gadarnhaol ac roedd un gwahoddiad i wyddonydd hinsawdd yn dal i fod heb ei ateb. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo penodi'r sawl a wahoddwyd pe bai'n derbyn y gwahoddiad neu wyddonydd hinsawdd arall os na dderbynnir y gwahoddiad. Cytunodd y Bwrdd i'r cynnig hwn.

CYTUNWYD: Penodi'r sawl a wahoddwyd i EAC pe bai'n derbyn y gwahoddiad neu wyddonydd hinsawdd arall os na dderbynnir y gwahoddiad

37. Nododd yr Athro Rhys Jones yn y trafodaethau yn WLMF nad oedd dymuniad i gael Cadeirydd cylchdroi i Is-Grŵp Llygredd Amaethyddol WLMF, felly byddai'r Athro Jones yn parhau yn y rôl hon.
38. Cymeradwyodd y Bwrdd y diwygiadau i aelodaeth Pwyllgor y Bwrdd fel y manylir yn y papur.

CYMERADWYWYD: Newidiadau i aelodaeth Pwyllgor y Bwrdd

Eitem 9. Eitemau i'w Cymeradwyo

Eitem 9a. Adroddiad Iechyd, Diogelwch a Lles Chwarter 1

39. Roedd PCC wedi craffu ar Adroddiad Iechyd, Diogelwch a Lles Chwarter 1 yn y cyfarfod ar 13 Medi.
40. Gofynnodd yr Athro Rhys Jones sut roedd adrodd damweiniau fu bron â digwydd wedi arwain at ostyngiad mewn digwyddiadau, ac am ragor o fanylion am hyn. Argymhellwyd y dylid trefnu sesiwn frifio gyda'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles ar y mater hwn.

CAM GWEITHREDU: Y Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles i gyfarfod â'r Athro Rhys Jones i ddisgrifio'r gwaith ar adrodd damweiniau fu bron â digwydd

41. Cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Iechyd, Diogelwch a Lles Chwarter 1

CYMERADWYWYD: Adroddiad Iechyd, Diogelwch a Lles Chwarter 1

Eitem 9b. Datganiad Caethwasiaeth Fodern

42. Roedd PCC wedi craffu ar y Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn y cyfarfod ar 13 Medi.
43. Trafododd aelodau'r Bwrdd y materion yn ymwneud â sicrhau nad oedd caethwasiaeth fodern o fewn cadwyn gyflenwi CNC ac i ba raddau roedd is-gontractwyr yn cadw at arferion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR). Disgrifiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol y dull a ddefnyddiwyd gan y tîm Masnachol a thynnodd sylw at y gwaith sydd i'w wneud gan yr holl wasanaethau cyhoeddus ar ehangu effaith gwerth cymdeithasol. Cynhaliwyd trafodaethau yn ARAC, gan gydnabod bod hon yn broblem o ran sbarduno gwerth, arferion cyflogaeth ac SMNR yn y gadwyn gyflenwi, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus.

44. Cymeradwyodd y Bwrdd y Datganiad Caethwasiaeth Fodern.

CYMERADWYWYD: Y Datganiad Caethwasiaeth Fodern

Eitem 10. UNRHYW FATER ARALL

45. Tynnodd yr Athro Steve Ormerod sylw at Adroddiad Sefyllfa Byd Natur y DU 2023, a oedd i fod i gael ei gyhoeddi'n fuan ac a fyddai'n disgrifio sefyllfa ddifrifol bywyd gwyllt yn y DU.

- Daeth y cyfarfod i ben –

Eitem. Holi ac Ateb Cyhoeddus

46. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y cyhoedd. Darllenodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro y cwestiynau isod. Cafwyd ymateb gan Gyfarwyddwr Gweithredol EPP a byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu drwy e-bost.

47. Catherine Linstrum, Cyfeillion Gwastadeddau Gwent

- *Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae CNC wedi dilyn patrwm o wrthwynebu ceisiadau DNS yng nghamau cynnar y broses gynllunio ond, wedi'u hargyhoeddi gan fesurau lliniaru arfaethedig datblygwyr mae'n debyg, mae wedi tynnu pob gwrthwynebiad yn ôl yn y pen draw. Mae arolygwyr cynllunio wedi penderfynu wedyn y byddai amodau cynllunio yn sicrhau bod y datblygiad nid yn unig yn osgoi effeithiau andwyol difrifol ond hefyd yn darparu budd bioamrywiaeth net. Hoffai Cyfeillion Gwastadeddau Gwent weld tystiolaeth gan CNC bod y mesurau lliniaru a roddwyd ar waith gan ddatblygwyr y mae CNC wedi'u cymeradwyo yn llwyddo i ddarparu'r budd a addawyd i wytnwch ecosystemau.*

48. Kim Waters, Undeb Afonydd Cymru

- *Rydym bellach wedi cyrraedd tymor bridio salmonidau, gydag indrawn, maip ac arferion ffermio ofnadwy ar fin lladd carfan y tymor hwn, gan ragdybio bod unrhyw rai yno i fridio mewn gwirionedd. Mae'r Wysg wedi methu. Unrhyw gynlluniau ar gyfer trawsleoli cadwraeth i'r is-afonydd amddifad i'r de o Aberhonddu? Wedi dweud hynny, mae'r is-afonydd mor wael, mae'n debyg na fydd yn werth chweil.*

49. Kim Waters, Undeb Afonydd Cymru

- *Ble mae dirywiad salmonidau yn afonydd Cymru yn ymddangos ar y dangosfwrdd?*

- Daeth y Cyfarfod Cyhoeddus i ben –

Cyfarfodydd Bwrdd										
Rhif y Cam	Categori'r Cyfarfod	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Rhif y Paragraff	Noddwr y Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
16	Cyhoeddus	27/01/2023	7	32	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd i ystyried costau llawn yr Ardaloedd Draenio Mewnol ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid	Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau; Rob Bell, Pennaeth Cyllid	18/04/2024	Parhaus	I'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Ebrill 2024. Oedi oherwydd adnoddau/blaenoriaethau staff.
18	Cyhoeddus	27/01/2023	9	47	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ddatblygu'r dull o ymdrin â sesiynau ymgysylltu cyhoeddus y Bwrdd yn seiliedig ar Leoliadau	Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	31/12/2023	Parhaus	Opsiynau i gael y Bwrdd i ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael eu datblygu. Y dull i'w gytuno gyda'r Cadeirydd a'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd Bwrdd newydd.
35	Cyhoeddus	23/03/2023	4	18	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Cyflwyniad ar y gwaith ar leihau llygredd i'w gyflwyno mewn cyfarfod Bwrdd yn y dyfodol	Nadia DeLonghi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu; Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Cymru	11/01/2024	Parhaus	Nodwyd bod fformat y diweddariad hwn yn cael ei drafod gyda Ceri Davies a Gareth O'Shea. Mae sesiwn strategol ar lygredd wedi'i chynllunio ar gyfer cyfarfod Bwrdd mis Ionawr.
65	Cyhoeddus	21/09/2023	4	13	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Cadeirydd y Pwyllgor Ystadau Tir i ystyried eitem ar gyfleoedd ymgysylltu addysgol a chymunedol sy'n deillio o blannu cydbwysu	Cadeirydd y Pwyllgor Ystadau Tir	26/10/2023	Parhaus	Ychwanegwyd at Ragolwg y Pwyllgor Ystadau Tir i'w ystyried
66	Cyhoeddus	21/09/2023	9	40	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch i gwrdd â'r Athro Rhys Jones i ddisgrifio'r gwaith ar Achosion a Fu Bron a Digwydd	Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch	15/11/2023	Parhaus	

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	16 Tachwedd 2023
Teitl y papur:	Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus)
Cyfeirnod y Papur:	23-11-B10
Cyflwynir y Papur gan:	Clare Pillman
Pwrpas	Gwybodaeth a thrafodaeth
Crynodeb	Mae'r papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion cyfredol.

Cyflwyniad

1. Ar adeg ysgrifennu, rydym yn rhoi paratodau ar waith ar gyfer trydedd storm sydd wedi'i henwi eleni (er mwyn cymharu, roedd Storm Dennis ym mis Chwefror 2020, Storm Christophe ym mis Ionawr 2021). Darperir papur ar Barodrwydd y Gaeaf i'r Bwrdd, Llywodraeth Cymru a phartneriaid, ond mewn gwirionedd rydym eisoes yng nghanol y gwaith o reoli cyfres o ddigwyddiadau tywydd garw.
2. Rydym yn y cylch arferol o drafodaethau cyllidebol gyda Llywodraeth Cymru hefyd sy'n arwain at gyllideb yr Hydref (a fydd ym mis Rhagfyr oherwydd bod Datganiad yr Hydref wedi'i drefnu ar gyfer eithaf hwyr ym mis Tachwedd).
3. Un o uchafbwyntiau'r ychydig fisoedd diwethaf oedd y Gynhadledd Dystiolaeth, lle cafwyd cyfraniadau gwych iawn ar bwnc dystiolaeth effeithiol gan staff CNC, sefydliadau partner ac academyddion. Dyma'r bedwaredd gynhadledd o'r fath, a phob blwyddyn mae'n esblygu, gan gyflwyno cyfranogwyr newydd a chanolbwyntio ar wahanol feysydd o waith CNC.
4. Er gwaethaf materion difyr fel y tywydd a chyllidebau, rwyf wedi parhau i allu crwydro gyda thimau ledled Cymru, gydag aelodau'r Bwrdd yn ymuno â ni'n aml. Ddiwedd mis Medi, cefais ymweld â chronfa ddŵr Llyn Celyn, cyfleuster Dŵr Cymru (DCWW), i weld y gwaith cynnal a chadw a diogelwch sylweddol sy'n digwydd yno. Roedd yn dda gweld y ffordd y mae tîm Rheoli Llifogydd a Dŵr Gogledd Ddwyrain Lloegr yn cydweithio â'n staff rheoleiddio Cronfeydd Dŵr a DCWW ar y prosiect pwysig hwn. Dilynwyd hyn gan ddiwrnod gyda thîm Afon Dyfrdwy LIFE ddechrau mis Hydref, gan ymweld â chroesfan coedwigaeth

Penaran, Rhaeadr y Bedol ac ysgol bysgod yn Manley Hall. Yn ddiweddarach yn y mis, treuliais amser gyda thîm Canol y De, yn ymweld â Choedwig Llantrisant i ddysgu am y gwaith arfaethedig yno; gweld y gwaith gorffenedig yng nghronfa ddŵr y Bont-faen a chwrdd â'r tîm rheoleiddio yn Ystad Ddiwydiannol Llandŵ i weld y materion amgylcheddol heriol iawn sy'n eu hwynebu yno. Yn ystod fy arhosiad yng Nghanol y De, cefais gyfle i ymweld hefyd â fferm Abi Reader yng Ngwenfô, a chwrdd â hi a Llywydd NFU Cymru, ynghyd â John Mercer a'i dîm.

5. Yn ystod taith i Lundain ym mis Hydref, cwrddais â Philip Duffy, Prif Weithredwr newydd Asiantaeth yr Amgylchedd, am drafodaeth ragarweiniol ddefnyddiol. Bydd Phil a minnau'n cyfarfod â Phrif Swyddog Gweithredol Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA) ym mis Tachwedd i siarad am sut gall y tair asiantaeth gydweithio'n agosach ar faterion amrywiol wrth symud ymlaen. Mynychais gyfarfod o Brif Swyddogion Gweithredol y Corff Natur Cadwraeth Statudol (SNCB) hefyd ochr yn ochr â phartneriaid o Natural England, NatureScot ac Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon. Ar wahân i hynny, cefais alwad gyda Laura Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd Iwerddon, ac yn ddiweddarach cefais y pleser o fynychu derbyniad gyda'r nos i ddathlu Cyd-ddatganiad Iwerddon-Cymru, a fynychwyd hefyd gan y Prif Weinidog a'r Tánaiste, Michael Martin TD.
6. Yn nes at adref, cwrddais â Llŷr Gruffydd AS a Graham Boase, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir Ddinbych. Cefais alwad ffôn ddefnyddiol hefyd gyda Dylan Williams (Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir Ynys Môn). Ddiwedd mis Hydref, ymwelais â Syr George Meyrick o Ystad Bodorgan ar Ynys Môn. Roedd George yn Is-Ganghellor Prifysgol Bangor tan yn gynharach eleni. Roedd hon yn sesiwn ddiddorol, yn cwmpasu gwaith amgylcheddol a thirwedd yr Ystad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, uchelgais Prifysgol Bangor i fod â rhan flaenllaw yn y gwaith o reoli mawndiroedd byd-eang a phrosiect y Sea Watch Foundation.
7. Dros y misoedd diwethaf, mae dau Arweinydd Tîm hirsefydlog wedi ymddeol, Mark Chapman, ein Rheolwr Swyddfa Rheoli Rhaglenni a Pete Stanley, ein Huwch Gynghorydd Arbenigol ar Fwyngloddiau Segur. Cefais sgwrs â'r ddau ohonynt cyn iddynt adael, a diolch iddynt am eu cyfraniadau sylweddol iawn i waith CNC.

Materion Strategol

Bioamrywiaeth

8. Rydym yn parhau i gysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru ar y broses o weithredu Argymhellion Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth. Mae'r wyth argymhelliad a'r 40 a mwy o gamau gweithredu yn gymysgedd o gamau gweithredu newydd y gallwn eu cyflawni ar unwaith, cynyddu a chyflymu'r

cynlluniau presennol, a chamau gweithredu hirdymor a fydd yn cyflawni drwy gydol tymor y Senedd hon a thu hwnt. Mae'n hanfodol bod y camau uchelgeisiol ac integredig hyn yn cael eu gweithredu ar y cyd mewn dull Tîm Cymru fel nad oes unrhyw fioamrywiaeth yn cael ei golli ac i symud tuag at adfer natur. Rydym yn bartner allweddol yn y broses weithredu trwy ein cynrychiolaeth ar y Grŵp Archwilio Dwfn Craidd a'i dri is-grŵp arbenigol (Tirweddau Dynodedig; Monitro a Thystiolaeth; Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill ar Sail Ardal (OECMau) ac Ardaloedd Enghreifftiol Adfer Natur (NREAau). Rydym yn rhan hefyd o Bartneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru a mentrau ymgysylltu ehangach fel datblygu Strategaeth Bioamrywiaeth newydd yng Nghymru gyda Grŵp Gweithredu Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

9. Arweinir y Grŵp Archwiliad Dwfn Craidd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae'r gwaith o adrodd ar gynnydd yr argymhellion yn digwydd bob chwe mis, gyda'r ail adroddiad chwe mis ar fin cael ei wneud. Rydym yn arwain y gwaith o gyflawni nifer o'r camau gweithredu, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
 - cam un y Map Rhwydweithiau Natur – a gyflwynwyd ym mis Awst ac rydym yn parhau i gydweithio â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar weithredu'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, gyda rownd tri ar agor ar hyn o bryd i gyflwyniadau;
 - sicrhau bod safleoedd gwarchoddedig a natur yn y dirwedd ehangach yn dasgau blaenoriaeth i CNC drwy gyflawni ein Cynllun Corfforaethol newydd;
 - y Cynllun Gweithredu Mawndiroedd Cenedlaethol, sydd â thri mecanwaith grant ar gyfer adfer. Lanswyd y rownd ddiweddaraf o un o'r rhain, sef y Grant Datblygu, yn ystod mis Hydref ac mae'n cau ar 15 Ionawr. Mae'r grantiau hyn yn ariannu'r paratodau sydd eu hangen i adfer mawndiroedd, gyda nodweddion y gellir eu mesur sy'n benodol i safleoedd. Rydym yn cwblhau manylion contractau gwaith paratoi'r pridd hefyd i'w gweithredu eleni, ac rydym ar y trywydd iawn o ran recriwtio staff ychwanegol i Raglen Gweithredu Mawndiroedd Cenedlaethol sydd wedi'i huwchraddio;
 - Rhyddhawyd Gweledigaeth Natur a Ni yn y Sioe Fawr ym mis Gorffennaf ac mae ar gael ar-lein i randdeiliaid a'r cyhoedd ei lawrlwytho. Mae dwy fersiwn o'r adroddiad terfynol: fersiwn lawn a fersiwn gryno ddarluniadol.
10. Sefydlwyd Grŵp Arbenigol Monitro a Thystiolaeth yn dilyn argymhelliad gan yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan Ceri Davies, ein Cyfarwyddwr Gweithredol, ac mae'n cynnwys arbenigwyr ym maes monitro o feysydd polisi, y byd academiaidd a chyflawni. Mae wedi cael y dasg o ddatblygu fframweithiau monitro a thystiolaeth i fesur cynnydd tuag at y targed o 30 erbyn 30 a chanllaw ar gyfer blaenoriaethu camau gweithredu. Dros y chwe mis diwethaf, mae'r grŵp wedi datblygu cyfres o fetrigau sy'n

addas ar gyfer mesur cynnydd, gan ganolbwyntio ar gyflawni, olrhain cynnydd a deall canlyniadau. Mae'r grŵp yn parhau i weithio ar yr argymhellion, gan archwilio gweithrediad a threfniadau gweithio ar y cyd yn y dyfodol. Bydd drafft cychwynnol o argymhellion yn cael ei gyflwyno i'r grŵp craidd ym mis Rhagfyr, gyda'r nod o gwblhau cam cyntaf y gwaith hwn yng ngwanwyn 2024.

11. Mae Grŵp Arbenigol OECMau a NREAAu wedi'i sefydlu hefyd. Cadeirydd y grŵp hwn yw'r Athro Steve Ormerod (yn ei rôl gyda Phrifysgol Caerdydd), gyda CNC yn aelod sy'n cymryd rhan, gan ymgymryd â rôl sylweddol yn natblygiad y maes gwaith hwn. Mae'r grŵp wedi bod yn datblygu'r meini prawf, y prosesau a'r dulliau i'w cymryd ar gyfer OECMau ac NREAAu yng Nghymru. Dros y misoedd nesaf, bydd y grŵp yn edrych ar gwmpasu cynlluniau peilot a mecanweithiau cyflawni. Bydd argymhellion cychwynnol yn cael eu hadrodd i'r grŵp craidd ym mis Rhagfyr.
12. Wrth i'r ffocws ar weithredu Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth barhau, rydym yn ymwybodol bod sawl cam gweithredu yn gofyn am nodi arweinwyr clir, gan ddiffinio camau gweithredu ymhellach gyda cherrig milltir allweddol a'r adnoddau sydd ar gael i alluogi ymdrech Tîm Cymru i fwrw iddi gyda degawd o weithredu pendant. Mae disgwyl i Dîm Cymru sicrhau newid trawsnewidiol, a byddwn yn parhau i gysoni â'r gofynion yn dilyn lansiad ein Cynllun Corfforaethol i helpu i weithredu'r camau gweithredu a gynlluniwyd.

Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

13. Cafodd Bil Amaethyddiaeth (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Awst 2023. Mae'r Ddeddf newydd yn sefydlu Rheoli Tir Cynaliadwy fel y fframwaith ar gyfer cymorth a rheoleiddio amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol ac mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i weithredu mewn ffordd y maen nhw'n ei ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni amcanion y Ddeddf, sef:
 - i. cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy;
 - ii. lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo;
 - iii. cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt;
 - iv. gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

Mae tebygrwydd rhwng yr amcanion hyn ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) yn ogystal â thri amcan llesiant ein Cynllun Corfforaethol, ond oherwydd ei bod yn ofynnol iddynt gael eu hystyried gyda'i gilydd mae gwahaniaeth posibl yn y pwyslais.

14. Mae'r Ddeddf yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 hefyd er mwyn rhoi'r pŵer i CNC ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwmpo coed, ac i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwmpo coed a roddwyd eisoes er

mwyn atal cwmpo coed a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaethau amgylcheddol eraill. Mae trafodaethau'n parhau gyda rhanddeiliaid allanol, gyda'r ffocws ar hyn o bryd ar amodau Haen 2 ar gyfer trwyddedau cwmpo coed gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwiwerod coch. Rydym yn adolygu ac yn datblygu ein proses ymgeisio ar y wefan, gan gynnwys y ffurflen gais ar gyfer trwyddedau cwmpo coed. Mae Llywodraeth Cymru wedi symud y dyddiad gweithredu o 1 Ionawr i 1 Ebrill y flwyddyn nesaf i ganiatáu mwy o amser i gwblhau trafodaethau rhanddeiliaid.

15. Wrth i'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) fynd drwy'r Senedd, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer cydgynhyrchu gyda'r diwydiant a CNC. Dim ond nawr y mae dull clir o ymdrin â chyfeiriad a gwaith cyflawni Llywodraeth Cymru yn datblygu. Bydd y Rhaglen Newid Amaethyddiaeth sy'n deillio o hyn yn arwain at y newid mwyaf ystyrlon mewn polisi amaethyddiaeth ar ôl yr Ail Ryfel Byd a gallai effeithio ar 1.86 miliwn hectar (sy'n cynrychioli 88%) o'r tir yng Nghymru.
16. Mae CNC yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sydd i fod i gael ei lansio yn 2025. Rydym wedi darparu adborth manwl mewn perthynas â chwmpas y camau cyflawni a gynigir ar gyfer y camau gweithredu 'cyffredinol' a 'dewisol. Mae'r materion allweddol yn cynnwys:
 - dim digon o fanylion i benderfynu ar yr adnodd angenrheidiol i gyflawni swyddogaethau statudol CNC i gefnogi'r cynllun;
 - hepgoriadau sylweddol mewn perthynas â rheoli dŵr ac ansawdd dŵr;
 - diffyg integreiddio a chyd-destun gofodol a fydd yn arwain at golli cyfle i gyflawni manteision lluosog;
 - ystyriaeth gyfyngedig i faterion bioddiogelwch a oedd wedi'u cyfyngu i iechyd anifeiliaid yn hytrach na chroesdorri planhigion/coed, Rhywogaethau Estron Goresgynnol, plâu a chlefydau;
 - ystyriaeth gyfyngedig i rywogaethau a rhai cynefinoedd, yn enwedig mawndiroedd;
 - materion ar gyfer rheoli safleoedd statudol.
17. Rydym wedi cael y dasg gan Lywodraeth Cymru hefyd o ddatblygu cynigion ar gyfer rheoli safleoedd gwarchoddedig yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae cytundebau Glastir cyfredol yn dod i ben ar ddiwedd 2023. Bydd Cynllun dros dro Cynefin Cymru yn rhoi cyfle i barhau â gweithgareddau rheoli ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a oedd â chontractau Glastir yn 2023 tan ddiwedd 2024 (er gyda chyfraddau taliadau cymorth is). Ar ôl y dyddiad hwn, disgwylir y bydd angen iddynt ymuno â'r Cynllun Ffermio

Cynaliadwy ond nid yw'r mecanwaith cyflawni a'r amserlen wedi'u cadarnhau eto. Mae parhad cyllid priodol heb fylchau ochr yn ochr â'r cyfle i ffermwyr eraill nad ydynt yn rhan o'r cynllun Glastir ar hyn o bryd yn peri risgiau.

18. Mae'n debygol y bydd cyflawni'r cynigion hyn yn arwain at fwy o alw ar adnoddau CNC o ran cyflawni ein dyletswyddau statudol. Mae'r lefel ychwanegol o gyflawni a'r bwch posibl mewn cyllid rhwng diwedd cytundebau Glastir / Cynllun Cynefin Cymru a dechrau'r cyllid ar gyfer rheoli o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn risg sylweddol i gyflwr ein safleoedd gwarchoddedig.
19. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad pellach a therfynol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy cyn diwedd y flwyddyn.

Gorfodi o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

20. Rydym wedi cynnal ymgyrch recriwtio i benodi staff i 22 swydd newydd fel y gallwn gynnal arolygiadau cydymffurfio a gorfodi o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (CoAPR). Mae'r aelodau staff hyn wedi ymuno â ni ac maen nhw bellach yn cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi i'w paratoi ar gyfer eu rolau.
21. Hyd yn hyn nid ydym wedi cynnal unrhyw arolygiadau a gynlluniwyd o dan CoAPR. Byddai unrhyw arolygiadau a gynhaliwyd wedi bod yn rhan o arolygiad trawsgydymffurfio fel y cyfarwyddir gan Arolygiaeth Wledig Cymru, lle byddai unrhyw achosion o dorri rheolau a nodwyd wedi cael eu hadrodd i Arolygiaeth Wledig Cymru a threfniadau gorfodi priodol wedi'u gwneud yn unol â'n Polisi Gorfodi a Sanctsiynau. Yn ogystal, efallai ein bod wedi archwilio fel rhan o ymchwiliad i ddigwyddiad llygredd. Rydym yn disgwyl i arolygiadau o dan CoAPR ddechrau ym mis Tachwedd, gan gynyddu yn ystod mis Rhagfyr.
22. Rydym yn deall ac yn cydymdeimlo â'r pwysau niferus y mae ffermwyr yn eu profi ar hyn o bryd a'r potensial sydd gan faterion o'r fath i effeithio ar iechyd meddwl a lles. Rydym yn deall y gallai arolygiadau cydymffurfio waethygu'r pwysau hwn. Byddwn bob amser yn rhoi rhybudd rhesymol, yn ysgrifenedig fel arfer, i ffermwyr cyn cynnal unrhyw arolygiadau cydymffurfio sydd wedi'u cynllunio, gan nodi'r elfennau y bydd swyddogion am eu harchwilio. Yr unig amser y byddai swyddogion yn galw'n ddirybudd yw pan fyddwn yn ymateb i ddigwyddiad llygredd a adroddwyd. Mae arolygiadau trawsgydymffurfio a ddewisir gan Arolygiaeth Wledig Cymru yn destun rheolau penodol a chyfnodau rhaghysbysu rydym yn cydymffurfio â nhw.
23. Fel rheoleiddiwr, wrth orfodi unrhyw reoliadau, mae'n ofynnol i ni ddilyn Cod y Rheoleiddwyr, sy'n amlinellu'r hyn sydd i'w ddisgwyl gan reoleiddwyr wrth wneud gwaith rheoleiddio. Mae ein dull o orfodi yn dilyn ein Polisi Gorfodi a Sanctsiynau cyhoeddadedig hefyd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn darparu cyngor ac arweiniad i gynorthwyo

gweithredwr neu unigolyn i gydymffurfio'n foddhaol unwaith eto cyn ystyried cosbau gorfodi trymach.

24. Ar 10 Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd newidiadau i CoAPR. Bydd y diwygiadau i'r rheoliadau'n cael eu gwneud mewn dau gam:

- Yn gyntaf, er mwyn gosod rheoliadau, sy'n symud dyddiad gweithredu'r terfyn daliad 170kg / ha o nitrogen o wrtaith da byw a dyletswyddau cadw cofnodion cysylltiedig o 31 Hydref i 1 Ionawr 2024.
- Yn ail, er mwyn cyflwyno gwelliannau i CoAPR i weithredu 'Dull Rheoli Maetholion Uwch' o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr 2024. Bydd hyn yn gweithredu lle mae angen mwy na 170kg / ha nitrogen o wrtaith da byw i'w roi ar y tir.

Mae staff CNC yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i weithredu'r newidiadau hyn, ac mae disgwyl i'r manylion gael eu cyhoeddi ddiwedd mis Tachwedd.

Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Dros Gymru (IEPAW)

25. Penodwyd Dr Nerys Llewelyn Jones, yr IEPAW presennol, ym mis Mawrth 2021 ac fe'i contractiwyd i ddechrau am gyfnod o hyd at ddwy flynedd, nes sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol parhaol. Mae ei rôl, sydd wedi'i hymestyn yn ddiweddar hyd at 29 Chwefror 2024, yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, gan oruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru ac ystyried materion systemig sy'n ymwneud â gweithio neu weithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

26. Yn wahanol i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) a Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS), nid oes gan yr IEPAW bwerau statudol, ond yn hytrach mae'n ymateb i 'gyflwyniadau' a wnaed i'w swyddfa ac yn penderfynu a ddylid llunio adroddiad i Weinidogion Cymru ar y mater. Hyd yn hyn, mae Dr Llewelyn Jones wedi cyhoeddi un adroddiad, ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar adroddiadau ar goedwigaeth (gorchmynion cadw coed), gwarchod gwrychoedd a safleoedd gwarchodedig. Rydym wedi cyfrannu at yr adroddiadau hyn drwy ymatebion ffurfiol i alwadau am dystiolaeth. Mae Dr Llewelyn Jones hefyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddefnyddio sancsiynau sifil mewn cyfraith amgylcheddol ac yn monitro datblygiadau sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr yng Nghymru, yn enwedig gollyngiadau carthion.

27. Mae Dr Llewelyn Jones yn cyfarfod yn rheolaidd ag OEP ac ESS ar faterion amgylcheddol penodol o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno. Mae hi'n monitro'r ymchwiliad gan yr OEP i'r EA, Defra ac Ofwat am fethiannau posibl i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol mewn perthynas â goruchwyliaeth reoleiddiol ar ollyngiadau carthion heb eu trin. Mae'r ymchwiliad hwn yn berthnasol i gwmnïau a rheoleiddwyr dŵr Lloegr yn unig, ond rydym yn ystyried perthnasedd unrhyw argymhellion i'n dull gweithredu yng Nghymru.

Diweddariad Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonydd a Phrosiect Teifi

28. Rydym yn parhau i gwblhau camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu'r Prif Weinidog cyn yr Uwchgynhadledd nesaf ar 30 Tachwedd. Mae'r Ddewislen Mesurau Lliniaru, Pecyn Tystiolaeth y Bwrdd Rheoli Maetholion a'r Polisi Gwlyptiroedd Adeiledig bellach wedi'u rhannu'n allanol gan Lywodraeth Cymru i'r aelodau sy'n mynychu Uwchgynhadledd y Prif Weinidog. Rydym wedi cwblhau dau gam arall drwy ddarparu crynodeb o dderbynioldeb data gwyddoniaeth dinasyddion, a fydd yn cael ei rannu'n allanol, a byddwn yn anfon papur ar opsiynau i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r camau gweithredu i archwilio'r ddarpariaeth o gronfa ddata o brosiectau a wnaed tuag at gyrraedd targedau ansawdd dŵr i ddod â'r safleoedd i gyflwr ffafriol. Bydd angen trafodaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru ar y ffordd ymlaen.
29. Mae fersiwn 3.1 o'r Cyngor Cynllunio wedi'i ddiweddarau ar ein gwefan, a'r newid mwyaf arwyddocaol yw y gellir gwneud penderfyniad nad oes unrhyw effaith sylweddol debygol o dan amgylchiadau penodol mewn perthynas ag adolygu trwyddedau. Fel rhan o'r adolygiad o drwyddedau ansawdd dŵr, rydym wedi cyhoeddi 17 trwydded i DCWW gyda therfynau newydd neu ddiwygiedig. Rydym wedi dyfarnu contract hefyd i gynnal Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth o effeithiau gwrtaith dofednod a mathau eraill o dail organig ar ansawdd dŵr.
30. Mae cwmpas wedi'i ddiweddarau ar gyfer Prosiect Teifi wedi'i ddatblygu ac rydym bellach wedi sicrhau rheolwr prosiect. Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, mae myfyriwr PhD wedi dechrau casglu tystiolaeth ar weithgareddau cyfredol ar Afon Teifi. Mae angen recriwtio dadansoddwr tystiolaeth ac rydym yn archwilio cyfleoedd ariannu (fel Cronfa Arloesi Ofwat) i gefnogi rhagor o waith. Rydym yn cynllunio cyfarfod o uwch gynrychiolwyr rhanddeiliaid gyda'r Cadeirydd i gasglu cefnogaeth ar gyfer camau gweithredu ar Afon Teifi cyn yr Uwch Gynhadledd nesaf.

Rheoleiddio Gorlifoedd Storm

31. Yn ystod mis Hydref, rhyddhawyd ein canllawiau i gwmnïau dŵr ar *Ddosbarthu Gollyngiadau Gorlifoedd Storm a Chaniatáu Gorlifoedd Na Chaniateir*. Mae'r canllawiau'n gosod y fframwaith i gwmnïau dŵr ei ddilyn wrth sicrhau bod gorlifiadau'n cael eu categoreiddio'n seiliedig ar dystiolaeth, a lle maen nhw'n is na'r safon neu'n achosi niwed amgylcheddol er mwyn sicrhau y byddant yn cael eu rhaglennu i'w gwella yng nghyfnodau'r presennol y Cynllun Rheoli Asedau ac yng nghyfnodau'r cynllun yn y dyfodol. Mae'n diffinio'n glir hefyd sut a phryd y mae'n dderbyniol i orlifoedd weithredu ac mae'n gosod diffiniadau ar gyfer gollyngiadau ar ddiwrnod sych, glawiad eithriadol, gofynion sgrinio ac effaith amgylcheddol. Bydd hyn yn galluogi ein timau amgylchedd i ymateb mewn modd priodol gan sicrhau bod ein hamodau a'n canllawiau trwyddedau yn cydfynd yn agos.

32. Mae rhyddhau'r canllawiau yn gam allweddol i CNC fel rhan o gynllun gweithredu Gorlifoedd Storm a oruchwylir gan Dasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru. Bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio nawr ar ddatblygu'r broses a'r gofynion trin data a fydd yn deillio o'n hymateb rheoleiddiol gwell.

Prosiect Lleihau Allyriadau Tirlenwi

33. Mae cydweithwyr sy'n ymwneud â'r prosiect Lleihau Allyriadau Tirlenwi wedi cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Gweinidog Newid Hinsawdd a Bwrdd Rhaglen Weinidogol yr Economi Gylchol Genedlaethol ar y cynnydd a wnaed gyda'r prosiect, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector tirlenwi. Roedd hwn yn ymrwymiad allweddol yng Nghynllun Sero Net Llywodraeth Cymru; mae'r ffocws ar safleoedd tirlenwi i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod allyriadau tirlenwi'n cyfrannu 2% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru ac 80% o'r holl allyriadau o'r sector gwastraff.
34. Mae tri swyddog prosiect wedi'u penodi i ymgymryd â'r gwaith, gyda dau gam allweddol i'w cyflawni: gwella ansawdd data sy'n ymwneud â nwy tirlenwi, a chydweithio â gweithredwyr tirlenwi i wella'r broses o gasglu a dinistrio nwy tirlenwi drwy ddefnyddio neu ffaglu. Dros y tair blynedd nesaf, bydd y tîm yn cydweithio â gweithredwyr safleoedd i ysgogi gwelliant ar draws y sector, a fydd yn ategu gwaith rheoleiddio arferol presennol CNC o'r sector. Nod y prosiect yw archwilio'r holl safleoedd gweithredol sy'n derbyn gwastraff biddiraddadwy, ynghyd â safleoedd caeëdig risg uchel. Mae'r ffocws ar y safleoedd hyn yn cael ei yrru gan yr offeryn modelu cenedlaethol, sy'n dangos y gellir sicrhau'r budd mwyaf drwy dargedu'r cyfleusterau hyn.
35. Roedd y Gweinidog yn falch o amcanion y prosiect, a'r cynnydd hyd yn hyn. Roedd uwch gynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol hefyd yn bresennol. O gofio bod cyfran sylweddol o'r safleoedd lle rydym yn gobeithio gweld gwelliant o dan reolaeth Awdurdod Lleol, roedd hwn yn gyfle da i godi proffil y prosiect.

Materion Gweithredol

Gwobr MSC ar gyfer Rheoli Cocos

36. Mae ein gwaith i reoli'r ddau Orchymyn Rheoleiddio Pysgodfeydd Cocos ar aber Afon Dyfrdwy a Chilfach Tywyn wedi meddu ar achrediad pysgodfeydd cynaliadwy y Cyngor Stiwardiaeth Forol (MSC) ers peth amser. Yn ddiweddar, rydym wedi cael ein cydnabod fel enwebai ac wedi hynny wedi ennill Gwobr Arweinyddiaeth Cefnfor yr MSC ar gyfer 2023, sy'n dathlu cyflawniad eithriadol ar draws pysgodfeydd achrededig. Mae'r wobwr hon yn cael ei beirniadu'n allanol gan banel arbenigol ar dri maen prawf: arweinyddiaeth, cydnabyddiaeth a chanlyniad. Cytunodd y beirniaid y dylai pysgodfeydd cocos aber Afon Dyfrdwy a Chilfach Tywyn ennill y wobwr hon i ddathlu ein perthynas a'n hymrwymiad hirsefydlog i'r MSC, i ganmol y pysgodfeydd am eu gwaith cynaeafu bach ei

effaith ac i gydnabod y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud i gefnogi bywyd adar yn yr ardal.

37. Roeddem yn falch iawn o dderbyn y wobwr mewn seremoni yn y Fishomonger's Hall yn Llundain ar 26 Hydref. Mae'r gwaith rydym wedi'i wneud ar y ddwy bysgodfa hyn yn cyd-fynd yn fawr â'n dyletswyddau SMNR ac mae staff wedi gweithio'n galed i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy; mae'r wobwr hon yn cydnabod eu llwyddiant.

Storm Babet

38. Effeithiodd Storm Babet ar sawl rhan o'r DU rhwng 18 a 21 Hydref, yn fwyaf arwyddocaol yn yr Alban ac yn Nwyrain Canolbarth Lloegr. Teimlwyd effaith y storm yng Nghymru hefyd, yn fwyaf amlwg yn y gogledd-ddwyrain yn ardaloedd Wrecsam a Sir y Fflint, ac yn y Canolbarth ar hyd Afon Hafren. Roedd adroddiadau o rywffaint o lifogydd mewn eiddo diarffordd dros ardal eang (hynny yw, dim un ardal benodol), ac roedd llawer o effeithiau dŵr wyneb o ffyrdd a chaeau dan ddŵr.
39. Mae ein timau yn y gogledd-ddwyrain a'r canolbarth yn brysur yn gwneud gwaith adfer stormydd yn dilyn Storm Babet. Awgrymodd rhagolygon cynharach y byddai'n cael effaith gyfyngedig yng Nghymru ond arweiniodd y glaw at lefelau llif hanesyddol bron ar rai o'r prif afonydd ac at gyhoeddi 46 rhybudd am lifogydd mewn cyfnod o 48 awr, gan gynnwys un rhybudd am lifogydd difrifol yn y Canolbarth.
40. Mae adolygiad parhaus i ddarganfod achos sylfaenol y problemau llifogydd mewn safleoedd fel Trefalun, y Rhyl a Sandycroft. Mae'n werth nodi hefyd bod yna lawer o ganlyniadau cadarnhaol fel perfformiad ein cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd yn yr Orsedd, Llanelwy, yr Wyddgrug a Llanfair Talhaearn, a wnaeth ddiogelu sawl eiddo rhag llifogydd. Roedd nifer o'n gweithwyr allan drwy'r penwythnos yn gosod amddiffynfeydd, yn clirio gridiau ac yn sicrhau bod ein gorsafoedd pwmpio yn gweithio.
41. Ar adeg ysgrifennu, rydym yn paratoi ar gyfer Storm Ciaran, a fydd yn effeithio ar Gymru rhwng 1 a 3 Tachwedd. Gan fod y ddaear yn wlyb iawn, mae'n ddigon posibl y gallem weld effeithiau pellach.
42. Rydym wedi cynnal gwiriadau gyda thimau ar ein lefelau o barodrwydd wrth i'r gaeaf agosáu, a rhoddir crynodeb yn ein datganiad 'Parodrwydd ar gyfer y Gaeaf', sydd wedi'i gynnwys fel Eitem Wybodaeth yng nghyfarfod Bwrdd mis Tachwedd. Byddwn yn rhannu'r datganiad hwn â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), er gwybodaeth iddynt. Rydym yn parhau i gynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau yn ein cylch gwaith. Rydym wedi paratoi'n dda yn gyffredinol, ond nid ydym yn ddifater ac, er enghraifft, mae angen i ni fod yn ymwybodol y gall tymor hir o weithgarwch llifogydd gael effaith flinedig gronnol ar ein staff.

43. Rydym yn bwriadu cyfarfod â'r tîm arweinyddiaeth yn y Swyddfa Dywydd hefyd, i bwysu a mesur yr heriau a ddaw yn sgil yr argyfwng hinsawdd a digwyddiadau glaw a thywydd mwy eithafol.

Diweddariad Gorfodi

44. Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, fe agoron ni 125 o achosion gorfodi newydd. Cynhyrchwyd 40% ohonynt o ganlyniad i'r ffaith ein bod wedi mynychu digwyddiadau, roedd 9% o achosion o bysgodfeydd Gwialen a Lein tra bod 51% wedi'u cynhyrchu o ddiffyg cydymffurfio rheoliadol mewn safleoedd a ganiateir. Gwnaethom gwblhau camau gorfodi a chau 23 o'r achosion newydd hyn o fewn y cyfnod hwn. Yn ystod yr un cyfnod, daethom â 17 o erlyniadau presennol i ben, 14 ohonynt yn achosion pysgodfeydd, dau ohonynt yn achosion gwastraff ac un yn achos cadwraeth.
45. Ar 24 Awst, plediodd Adrian McLoughlin yn euog yn Llys Ynadon Aberystwyth i drosedd o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 a gyflawnwyd ym mis Tachwedd 2022 o achosi difrod bwriadol i SoDdGA Rhosydd Bryn-maen. Fe wnaeth Mr McLoughlin aredig ardal o laswelltir corsiog yr oedd yn gwybod ei fod yn rhan o nodwedd gymhwysol yr ardal o ddiddordeb arbennig. Cafodd ddirwy o £180 a gorchmynnwyd iddo dalu ein costau o £1,500.
46. Mae ymchwiliadau i ddau safle gwastraff anghyfreithlon yn y Canolbarth wedi dod i ben yn ddiweddar. Yn yr achos cyntaf, cafodd John Bray ei erlyn yn llwyddiannus am ganiatáu i 3,000 a mwy tunnell o wastraff gael ei ollwng ar ei dir ym Mwynglawdd Wemyss ger Trisant, Aberystwyth heb drwydded amgylcheddol a heb gydymffurfio ag unrhyw esemptiad. Gorchmynnwyd iddo dalu £8,700 ar ôl pledio'n euog i drosedd o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i ganiatáu i wastraff adeiladu a dymchwel, ymhlith mathau eraill o wastraff sy'n sensitif i'r amgylchedd, gael ei ollwng ar ei dir. Roedd y swm yn cynnwys dirwy o £7,000, gordal dioddefwr o £700 a £1,000 tuag at gostau CNC o gyflwyno'r erlyniad.
47. Fe wnaeth swyddogion o dîm Gwastraff a Gorfodaeth y Canolbarth ymweld ag eiddo Mr Bray ym mis Awst 2021 ar ôl derbyn adroddiadau o weithgarwch anghyfreithlon ar y safle. Ysgrifennwyd ato ar ôl yr ymweliad yn ei hysbysu ein bod wedi mynychu safle Mwynglawdd Wemyss ac wedi nodi bod gwastraff yn cael ei waredu heb ei awdurdodi. Dywedwyd wrtho bod gollwng gwastraff ar dir heb drwydded amgylcheddol yn drosedd ac y byddai CNC yn cynnal ymchwiliad llawn; dywedwyd wrtho hefyd na ddylid dyddodi na llosgi unrhyw wastraff pellach yn y lleoliad. Er gwaethaf hyn, canfu ymweliad pellach ym mis Tachwedd 2021 fod mwy o wastraff wedi ei adael ar y safle. Er bod gan Mr Bray esemptiad gwastraff cofrestredig a oedd yn caniatáu iddo dyddodi gwastraff addas i'w ddefnyddio mewn gweithgarwch adeiladu, nid oedd unrhyw

waith adeiladu'n digwydd. Yn hytrach, roedd yn derbyn deunydd gwastraff gan bobl eraill i'w waredu ar ei dir ac roedd yn cael ei dalu i dderbyn llawer ohono.

48. Mewn ymchwiliad arall, derbyniodd Josh Bowker o Fferm Gwern y Beiliad, Four Crosses, rybudd ffurfiol ar ôl cyfaddef trosedd o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Canfuwyd ei fod wedi dyddodi gwastraff adeiladu a dymchwel, priddoedd yn bennaf, ar ei fferm nad oedd yn unol â gofynion esemptiad.
49. Bydd y ddau achos yn cael eu cyfeirio nawr at dîm Treth Gwarediadau Tirlenwi CNC i asesu a ddylid eu hystyried gan Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer y dreth tirlenwi sydd wedi'i hosgoi.

Materion Masnachol

Gwerthiant Pren

50. Mae cwsmeriaid pren yn dweud bod y farchnad bren yn araf, gyda phrisiau boncyffion llifio yn gostwng yn araf wrth i'r galw yn y farchnad am bren wedi'i lifio grebachu. Mae'r galw am goed tân yn dal i fod yn uchel ac rydym yn disgwyl prysurdeb tymhorol am danwydd coed ar gyfer cynlluniau ynni diwydiannol a lleol. Mae'r paratodau ar gyfer digwyddiad Gwerthu Pren olaf blwyddyn ariannol 2023/24 ar y gweill ac mae arwyddion cynnar yn nodi y byddwn yn cyflawni ymrwymiad blynyddol 2023/24 o 721,000m³ o bren i ddiwydiant.
51. Mae gwaith y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren gan Lywodraeth Cymru yn parhau, gydag ymgynghoriad rhanddeiliaid yn debygol erbyn mis Mai 2024.

Cwsmer

Strategaeth Profiad Cwsmeriaid ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid 2021-2030

52. Mae'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC) wedi cymeradwyo'r Strategaeth Profiad Cwsmer ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid 2021-2030 (f2.0). Ers i'r Strategaeth gael ei hysgrifennu yn 2021, rydym wedi cryfhau ein dealltwriaeth o ganfyddiadau cwsmeriaid a'n potensial o ran profiad cwsmeriaid. Rydym wedi cynnal archwiliad mewnol hefyd o'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys adnoddau, offer ac ymarfer. Gyda'r ymwybyddiaeth ddiweddaraf hon, mae ein heglurder o ran cyfeiriad ac uchelgais wedi cynyddu, ac mae ein Strategaeth ddiwygiedig yn sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar strategaeth sy'n ein galluogi i gyflawni'r uchelgais honno.

Catalog Gwasanaeth

53. Mae ein gwaith ar greu Catalog Gwasanaeth sefydliad cyfan sylfaenol wedi aeddfedu o'r cam prosiect gyda'n contractwr i gam cyntaf busnes fel arfer, ac

mae wedi'i fabwysiadu i'r rhaglen Trawsnewid Busnes fel offeryn allweddol ar gyfer meddwl yn drawsnewidiol am brosiectau. Bydd ein Tîm Digidol yn parhau â'r gwaith drwy fireinio cynnwys y catalog i gefnogi ffordd o feddwl a arweinir gan wasanaethau.

Cwynion

54. Yn dilyn erthygl a gyhoeddwyd gan y BBC ynghylch materion ansawdd dŵr DCWW, rydym wedi derbyn llawer o ymholiadau, cwynion, gohebiaeth a cheisiadau cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Tîm Gohebiaeth Ganolog wedi bod yn cydlynu ein hymateb, er mwyn sicrhau cysondeb ac er mwyn sicrhau bod y mater yn cael sylw amserol.
55. Mae'r ateb i Fynediad at Wybodaeth a Chwynion Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) yn cael ei brofi ar hyn o bryd ac ar y trywydd iawn i fynd yn fyw ar 1 Tachwedd.

Cyfathrebu a Digidol

Cyfathrebu Corfforaethol

56. Ategwyd ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd, natur a llygredd wrth hyrwyddo'r cytundeb rhwng CNC a CLILC, gan dynnu sylw at sut byddwn yn cyfuno arbenigedd ac adnoddau i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol i gymunedau lleol. Ategwyd y negeseuon ynghylch rôl hanfodol y sector cyhoeddus wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ym mhrif araith ein Prif Swyddog Gweithredol yng Nghynhadledd Amgylchedd Iwerddon.
57. Ym mis Hydref hefyd gwelwyd dechrau'r gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig yn y Gogledd Ddwyrain. Mae'r cyfathrebu mewn perthynas â'r digwyddiadau hyn wedi sbarduno diddordeb y cyfryngau a sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol ac wedi darparu cyfle hanfodol i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid.

Adferiad natur

58. Bu'r tîm Cyfathrebu'n cydweithio'n agos â phartneriaid i gefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r adroddiad nodedig ar Sefyllfa Natur, gan dynnu sylw at y camau brys sydd eu hangen i wrthdroi dirywiad natur. Mae cyhoeddi'r adroddiad yn darparu sbardun i ni drafod y dystiolaeth a hyrwyddo gwell dealltwriaeth o sefyllfa natur yng Nghymru, ac yn annog diddordeb newydd gan ddarlledwyr yn ein gwaith prosiect sy'n cefnogi adferiad natur.
59. Rydym wedi parhau i hyrwyddo ein gwaith i gefnogi adferiad natur, gan gydweithio'n agos â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru i lansio rownd ariannu ddiweddaraf y Gronfa Rhwydweithiau Natur ac i amlygu prosiectau sydd eisoes yn elwa o'r cynllun. Fe wnaethom roi

cyhoeddusrwydd hefyd i'n hymdrechion i ailsefydlu cynefinoedd prin ar Fynydd Helygain a'n partneriaeth â pherchnogion tir Ceredigion i amddiffyn y pryf llofrudd, rhywogaeth â blaenoriaeth. Fe wnaeth ein gwaith prosiect Quake LIFE yn Tyddewi yn Sir Benfro olygu bod modd i ni anfon negeseuon creadigol a difyr yn ymwneud â'r prosiect allweddol hwn. Yn olaf, mae lansio'r ymgyrch Acorn Antics flynyddol yn parhau i greu ymgysylltiad sylweddol â'r gynulleidfa ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ac yn y cyfryngau darlledu, gan danlinellu ein neges y gall pobl o bob oed gymryd rhan weithredol wrth fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd.

Cymunedau yn wydn i newid hinsawdd

60. Fel rhan o'n rhaglen o negeseuon parodrwydd ar gyfer y gaeaf, buom yn cydweithio â'r tîm Ymgysylltu a Gwydnwch Cymunedol i roi wythnos o rybudd a hysbysu / negeseuon ymwybyddiaeth o lifogydd ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr ymgyrch yn caniatáu i ni dynnu sylw at y gwasanaethau rydym yn eu darparu i leihau risg ac effeithiau llifogydd a'r hyn y gall cymunedau ei wneud i helpu eu hunain. Buom yn cydweithio'n agos hefyd â rheolwyr dyletsrwydd i rannu rhybuddion rhagweithiol a negeseuon hysbysu yn ystod digwyddiadau amrywiol o law trwm.
61. Lansiodd cyfres podlediad deg rhan arbennig sy'n archwilio ein gwaith rheoli perygl llifogydd ar 17 Hydref. Mae ein llwyddiant yng nghategori Ymgysylltu â'r Gymuned Gwobrau Peirianeg Sifil ICE Cymru 2023 – am y gwaith ymgysylltu lleol ynghylch gwelliannau diogelwch cronfa ddŵr Llyn Tegid – yn dangos y pwysigrwydd rydym yn ei roi ar ymgysylltu â chymunedau yn ein gwaith rheoli perygl llifogydd.

Llygredd yn cael ei leihau

62. Roedd ein gwaith paratoi gyda'r timau Ansawdd Dŵr, yr Amgylchedd a Rheoleiddio yn y Canolbarth yn fuddiol o ran sicrhau ein bod yn barod i fynd i'r afael â chyfweliad radio cenedlaethol heriol gan y BBC ar berfformiad Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Aberteifi. Rydym wedi cefnogi'r tîm lleol i sicrhau bod ASau ac Aelodau o'r Senedd lleol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y materion ar y safle hwn. Rydym yn rhagweld y bydd rhagor o ddiddordeb mewn perfformiadau Gorlifoedd Carthffosiaeth Gyfun (CSO) wrth i ragor o adroddiadau gael eu cyhoeddi yn ystod mis Hydref a datganiad llafar gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, a thrwy hyrwyddo'n rhagweithiol ganllawiau newydd ar gyfer cwmnïau dŵr ar orlifoedd stormydd. Rydym eisoes wedi amlinellu'r heriau a wynebir yn ystod y tymor samplu dŵr ymdrochi, gan gyhoeddi blog i amlinellu materion a allai effeithio ar ddsbarthiadau, heb ragdybio'r canlyniadau.
63. Rhoddodd Diwrnod Afonydd y Byd gyfle i dynnu sylw at lwyddiannau prosiectau Afon Dyfrdwy LIFE a Phedair Afon LIFE. Cafodd ein blog yn esbonio gwaith i gael gwared â gored ar Afon Clywedog ymateb cadarnhaol ar y cyfryngau

cymdeithasol. Gan fyfyrto ar y diddordeb parhaus mewn ansawdd dŵr, rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer darparu briff rhagweithiol gyda'r cyfryngau i dynnu sylw at ein gwaith ansawdd dŵr, yr heriau a wynebir a'r ymdrech gydweithredol y bydd ei hangen i fynd i'r afael ag ef.

Digidol

64. Yn dilyn cadarnhad o'r rheoliadau newydd ar gyfer Coedwigaeth, mae'r tîm Digidol yn cydweithio â chydweithwyr i ailgynllunio'r ffurflen drwydded cwmpo coed a'r cynnwys gwe cysylltiedig yn barod ar gyfer pan ddaw'r newidiadau i rym yn 2024. Mae cynnwys y drwydded newydd wedi cael ei rannu â grŵp rhanddeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, grwpiau cadwraeth a'r diwydiant coedwigaeth. Drwy weithio ar y cyd a dangos y gwaith rydym wedi'i ddechrau, ein gobaith yw nodi peryglon posibl yn gynnar a gwella dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r darn hwn o waith. Mewn modd tebyg, er mwyn gwella'r gwasanaeth ar-lein "Cael caniatâd i wneud rhywbeth ar dir CNC," byddwn yn cynnal cyfweiliadau defnyddwyr gwasanaeth ar y broses ar gyfer cael trwydded marchogaeth ceffylau ar gyfer Niwbwrch a chael caniatâd i ffilmio ar dir CNC.

Edrych Ymlaen

Dydd Llun 27 a Dydd Mawrth 28 Tachwedd – Ffair Aeaf Frenhinol Cymru, Llanelwedd

Iau 7 Rhagfyr – Y Pwyllgor Cyllid

Dydd Mawrth 12 Rhagfyr – Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Dydd Mercher 13 Rhagfyr – Galwad Diweddarau'r Bwrdd

Dydd Gwener 15 Rhagfyr – Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Dydd Iau 11 Ionawr – Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

Dydd Mawrth 16 Ionawr – Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth

Dydd Iau 1 a Dydd Gwener 2 Chwefror – Cyfarfod Bwrdd CNC

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	16 Tachwedd 2023
Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (y Pwyllgor) i'r Bwrdd
Cyfeirnod y Papur:	23-11-B11
Noddir y papur gan:	Kath Palmer, Cadeirydd y Pwyllgor
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y papur gan:	Kath Palmer, Cadeirydd y Pwyllgor
Pwrpas y papur:	Gwybodaeth
Crynodeb	Rhoi diweddariad i'r Bwrdd am gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2023

Cefndir

1. Mae'r diweddariad hwn i'r Bwrdd yn ymwneud â chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2023.
2. Am ragor o fanylion, gall holl aelodau'r Bwrdd weld agendâu, papurau a chofnodion y pwyllgorau drwy'r porth Diligent.

Diweddariad

Archwilio Cymru

3. Darparodd Archwilio Cymru ddiweddariad ar faterion allweddol eu harchwiliad o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon 2022-23.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

4. Darparwyd diweddariad ar faterion allweddol i'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Croesawodd y Pwyllgor yr Adroddiad a'r Cyfrifon a gwnaed awgrymiadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd. Roedd y Pwyllgor yn fodlon i'r Swyddog Cyfrifyddu a Chadeirydd y Pwyllgor

lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth. Roedd yr aelodau hefyd yn fodlon i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu lofnodi'r cyfrifon, ac i'w cyflwyno i'r Bwrdd am eu cymeradwyaeth.

5. Byddai'r adran Gyllid yn cynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd ar gyfer Adroddiad y flwyddyn nesaf, ac roedd Archwilio Mewnol wedi cytuno i wirio ffigurau'r Adroddiad a'r Cyfrifon yn y blynyddoedd a ddaw. Byddai asesiad yn cael ei gwblhau o ffigurau CNC ar gyfer y flwyddyn nesaf i weld a allant ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau.
6. Diolchodd y Pwyllgor i'r holl dimau a oedd wedi cyfrannu at yr Adroddiad a'r Cyfrifon cynhwysfawr, a holwyd am i'r diolch hwn gael ei drosglwyddo ymlaen.

Unrhyw Fater Arall

7. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Gylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor.

Cofrestr Risg Strategol

8. Trafododd y Pwyllgor y datganiad ar y parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer CNC a'r fframwaith rheoli risg.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	16 Tachwedd 2023
Teitl y papur:	Diweddariad y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth (y Pwyllgor) ar gyfer y Bwrdd
Cyfeirnod y Papur:	23-11-B12
Noddir y Papur gan:	Yr Athro Peter Rigby, Cadeirydd y Pwyllgor
Paratowyd y Papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y Papur gan:	Yr Athro Peter Rigby, Cadeirydd y Pwyllgor
Pwrpas y Papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Mae'r crynodeb hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion a ystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 24 Hydref 2023.

Cefndir

1. Mae'r crynodeb hwn yn darparu diweddariad ar faterion y mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth o'r farn y dylid tynnu sylw'r Bwrdd cyfan atynt yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023.
2. Am ragor o fanylion, gall pob aelod o'r Bwrdd weld agendâu, papurau, a chofnodion pwyllgorau drwy'r porth Diligent.

Camau gweithredu / Cynnydd ers cyfarfod blaenorol

3. Rhoddwyd diweddariad llafar i'r Pwyllgor ar y Prosiect Gwyddoniaeth Dinasyddion, Rhaglen Mawndir, a Dadansoddeg Data.

Diweddariad o'r Gweithdy Arloesi

4. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad gan y Gweithdy Arloesi a gynhaliwyd ym mis Mai lle cytunwyd bod rhaid i arloesi chwarae rhan ganolog wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a'r hinsawdd.

5. Cytunodd y Pwyllgor y byddai cynnal profion yn darparu tystiolaeth ac na ddylid ofni methu. Roedd cymryd amser i fyfrio ac ail-brofi yn bwysig yn ogystal â nodi'r meysydd problemus i nodi lle roedd angen arloesi. Byddai'r Rhaglen Drawsnewid yn faes allweddol da i ganolbwyntio arno i gyflawni newidiadau sylweddol.

Dyheadau'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2025

6. Cyflwynwyd dyheadau SoNaRR 2025 i'r Pwyllgor a amlygodd fod gwerthoedd newydd y Cynllun Corfforaethol yn gysylltiedig â SoNaRR.
7. Byddai cynnwys gwerthoedd cynhenid yn ddefnyddiol ond roedd y Pwyllgor yn cydnabod y cymhlethdodau. Deallwyd y byddai ymgysylltu â phobl Cymru ar ddeall gwerth eu perthynas â natur a'r amgylchedd a lles diwylliannol yn ddefnyddiol. Byddai SoNaRR2025 yn adlewyrchu bod yr amgylchedd wedi gwella, er gwaethaf y materion cyfredol.
8. Cytunodd y Pwyllgor fod y dystiolaeth mewn rhai ardaloedd yn glir ac anogodd CNC i fod yn feiddgar. Byddai'r Tîm yn croesawu'r cyfle i gydweithio ag aelodau'r Pwyllgor ar syniadau ar dystiolaeth sy'n datblygu a ffyrdd newydd o feddwl. Cytunwyd y byddai'r Adroddiad Interim, i'w gyhoeddi ddiwedd 2024, yn cael ei ddychwelyd i'r Pwyllgor am gyngor.

Diweddariad ar Brosiectau LIFE – Prosiect Pedair Afon LIFE

9. Cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor ar y Rhaglen. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys trosolwg ar y Prosiect pum mlynedd, nodweddiad dynodedig yr Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), llwybrau pysgod, gwaith gyda ffermwyr, lleihau rhywogaethau goresgynnol, a rhannu arferion gorau wrth adfer afonydd. Amlinellwyd y gwaith o reoli tir, monitro, cyfathrebu ac ymgysylltu, a'r materion allweddol i'r Pwyllgor hefyd.

Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth – cynnydd ar ddatblygu fframweithiau monitro a thystiolaeth i fesur cynnydd tuag at dargedau 30 erbyn 30

10. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yr eitem ac amlinellodd aelodaeth y Grwpiau Arbenigol a oedd yn gweithio i gyflawni rhannau allweddol o'r argymhellion a ddatblygwyd o ganlyniad i Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth.
11. Croesawodd y Pwyllgor y gwaith a wnaed a'r cysoni â'r Cynllun Corfforaethol. Fe wnaethant archwilio'r heriau ar feini prawf ar fesurau cadwraeth effeithiol yn seiliedig ar ardal. Gwireddwyd lefel y dyhead a holodd y Pwyllgor pa ddulliau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion erbyn 2030. Cydnabuwyd yr her anodd oedd yn gysylltiedig ag adnoddau a chael eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol.

Gwersi a ddysgwyd o'r Adolygiad Maethynnau

12. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried ansawdd data CNC o argymhelliad gan Adroddiad Archwilio diweddar y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) am afonydd ACA.

13. Defnyddiwyd data gwallus mewn asesiad a chafwyd ymchwiliad ac ymarferiad gwersi a ddysgwyd, a chyflwynwyd y canlyniadau i'r Pwyllgor. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd gan y gweithdrefnau a'r camau a gyflwynwyd i nodi a datrys y materion hyn. Cadarnhawyd hefyd yr hyn a ddysgwyd wedi cymhwyso'n ehangach i dystiolaeth a chasglu data yn CNC.
14. Byddai Dr Rosie Plummer yn cyflwyno'r Adroddiad yn ôl i ARAC i sicrhau bod y camau gweithredu wedi'u hateb yn llawn.

Creu ac ailstocio coetir ar dir sydd yng ngofal CNC

15. Rhoddwyd cefndir a chyflwyniad ar fethodoleg y rhaglenni plannu ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor. Nodwyd y cynnydd presennol ynghyd â'r rhagolygon.
16. Esboniwyd cyfansoddiad cynlluniau Creu Coetiroedd a thynnwyd sylw at gyfyngiadau plannu. Holodd y Pwyllgor am yr angen am blannu cydbwysu ar gyfer colli cynefin ar dir agored a thrafod pwysigrwydd a manteision coed trefol.
17. Trafodwyd rôl CNC yn y polisi i sicrhau 10% o goetir ar ffermydd hefyd. Byddai darparu tystiolaeth a dealltwriaeth i berchnogion ffermydd ar ble i blannu coed a dangos gwerth, yn allweddol.

Cylch Gorchwyl

18. Amlygodd y Cadeirydd y mân newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Llywodraethu y Pwyllgor

19. Nodwyd mai dyma gyfarfod ola'r Athro Peter Rigby wrth i'w gyfnod fel aelod o Fwrdd CNC ddod i ben. Roedd y Pwyllgor rhan o'i etifeddiaeth a diolchwyd iddo am gadeirio'r cyfarfodydd ac am gyflwyno tystiolaeth i ddiwylliant CNC. Byddai Steve Ormerod yn cymryd yr awenau fel Cadeirydd y Pwyllgor ar 1 Tachwedd 2023.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	16 Tachwedd 2023
Teitl y papur:	Diweddariad y Pwyllgor Cyllid ar gyfer y Bwrdd
Cyfeirnod y Papur:	23-11-B13
Noddir y Papur gan:	Syr David Henshaw, Cadeirydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru
Paratowyd y Papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y Papur gan:	Syr David Henshaw, Cadeirydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru
Diben y Papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Mae'r crynodeb hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion a ystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 19 Hydref 2023.

Cefndir

1. Mae'r crynodeb hwn yn darparu diweddariad ar faterion y mae Syr David Henshaw, Cadeirydd Bwrdd CNC o'r farn y dylid tynnu sylw'r Bwrdd cyfan atynt yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023.
2. Am ragor o fanylion, gall pob aelod o'r Bwrdd weld agendâu, papurau, a chofnodion pwyllgorau drwy'r porth Diligent.
3. Nid oedd Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, yn bresennol ac roedd Syr David Henshaw yn cadeirio yn ei habsenoldeb.

Cymeradwyaethau Cyllid

4. Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid y papur yn barod ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd.

Y diweddariad am gyllideb 2023-24 a 2024-25

5. Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid ar gyfer y gyllideb sy'n weddill ar gyfer 2023-24 a'r gyllideb ddisgwyliedig ar gyfer 2024-25.

6. Amlinellwyd yr heriau ar gyfer gweddill y gyllideb ar gyfer y flwyddyn hon, yn ogystal â'r mesurau lliniaru sydd ar waith. Trafododd y Pwyllgor yr heriau sydd ar y gweill ac awgrymodd gynnal archwiliad dwfn i'w rôl fel Pwyllgor Cyllid ac y dylai'r Bwrdd gynnig sicrwydd cadarn i'r cynigion a'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Byddai'r flwyddyn nesaf yn heriol gyda chostau cynyddol cyflog, chwyddiant, a chyfraddau cyfraniad cyflogwyr Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS).
7. Nodwyd y byddai'r ymarfer adolygu cyllideb yn rhoi cyfle i ailfeddwl am y meysydd lle roedd angen i CNC wneud pethau'n fwy effeithlon. Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad pellach mewn sesiwn strategol ym mis Ionawr.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	16 Tachwedd 2023
Teitl y Papur:	Adroddiad y Bwrdd Rheoli Perygl Llifogydd
Cyfeirnod y Papur:	23-11-B14
Noddir y papur gan:	Yr Athro Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (y Pwyllgor)
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y papur gan:	Yr Athro Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (y Pwyllgor)
Pwrpas y papur:	Gwybodaeth
Crynodeb	Rhoi diweddariad ar gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (y Pwyllgor) ar 5 Hydref 2023

Cefndir

- Mae'r crynodeb hwn yn rhoi diweddariad ar faterion y mae Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (y Pwyllgor) o'r farn y dylid tynnu sylw'r Bwrdd cyfan atynt yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2023.
- Am ragor o fanylion, gall holl aelodau'r Bwrdd weld agendâu, papurau a chofnodion y pwyllgorau drwy'r porth Diligent.

Diweddariad

Adroddiad Diweddarau ar Reoli Perygl Llifogydd

- Cyflwynwyd adroddiad diweddarau i'r Pwyllgor a oedd yn amlygu'r prif feysydd gwaith yn cynnwys yr Adolygiad Annibynnol o Ymchwiliadau i Llifogydd, Adran 18, ac Adroddiadau bob dwy flynedd ar Gronfeydd, a'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd. Yna, clywodd y Pwyllgor am y paratodau ar gyfer rheoli digwyddiadau dros y gaeaf. Rhoddwyd diweddariad ar Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15).
- Yn ystod y cyfarfod nodwyd hefyd fod prosiect Llyn Tegid wedi derbyn Gwobr Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru ar gyfer Ymgysylltu Cymunedol yn 2023 ac y byddai'r Pennaeth

Busnes a'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoli Perygl Llifogydd yn mynychu sesiwn galw i mewn ar reoli perygl llifogydd i Aelodau o'r Senedd.

Diweddariad ar Raglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd

5. Rhoddwyd trosolwg o ragolwg gwariant y Rhaglen Gyfalaf, yn cynnwys camau a gymerwyd i gysoni'r gwariant â chyllideb 2023-24. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod CNC wedi cymryd y gorwariant rhagamcanol o ddifrif, a bod ymchwiliad wedi'i gomisiynu.
6. Trafododd y grŵp y problemau gyda phrosiectau aml-flwyddyn a chyllid am flwyddyn yn unig, a chyfyngiadau systemau a phrosesau cyllido. Amlinellwyd y broses a'r amserlenni ar gyfer trafod Rhaglen Gyfalaf 2024-25.
7. Rhoddwyd diweddariadau ar y System Rhybuddion am Llifogydd a Phrosiectau Telemetreg.

Rhaglen Gweithredu Adfer ac Adolygu Llifogydd

8. Cyflwynwyd diweddariad ar y Rhaglen i'r Pwyllgor, yn cynnwys trosolwg o statws camau gweithredu Coch Oren Gwyrdd a'r diweddariadau ar feysydd allweddol o recriwtio i faes Rheoli Perygl Llifogydd, gwydnwch y rota, cyfathrebu, a bod yn barod am y gaeaf. Amlinellwyd rhagolwg y Rhaglen yn cynnwys yr ymarfer gwersi a ddysgwyd, a rheoli ac adrodd ar fanteision a wireddwyd.

Rheoli Asedau a Risg Strategol 02

9. Darparwyd trosolwg o gyflwr asedau a rheoli data Rheoli Perygl Llifogydd, yn ogystal â phrif bwyntiau archwiliad mewnol. Esboniwyd y mentrau gwella a'r risgiau allweddol hefyd.
10. Trafododd y Pwyllgor ansawdd y data gan nodi eu bod yn chwilio am ateb rheoli data dros dro.

Ailddatblygu'r Gofrestr Risgiau Strategol

11. Fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu'r Gofrestr Risgiau Strategol, gwahoddwyd y Pwyllgor i roi sylwadau ar y risgiau strategol newydd. Awgrymodd y Pwyllgor rai mân newidiadau a thrafodwyd sut y gallai strwythurau'r Pwyllgor gefnogi'r risgiau.

Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor

12. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ddarparu sylwadau ychwanegol ar gylich gorchwyl wedi'i ddiweddarau y Pwyllgor.

Unrhyw Fater Arall

13. Cafwyd diweddariad gan Geraint Davies ar gyfarfod Undeb Amaethwyr diweddar a fynychodd fel cynrychiolydd Bwrdd CNC.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	16 Tachwedd 2023
Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Ystad Tir (y Pwyllgor) i'r Bwrdd
Cyfeirnod y Papur:	23-11-B15
Noddir y papur gan:	Yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y papur gan:	Yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor
Pwrpas y papur:	Gwybodaeth
Crynodeb	Mae'r crynodeb hwn yn rhoi diweddariad ar faterion a ystyriwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2023.

Cefndir

1. Mae'r crynodeb hwn yn darparu diweddariad ar faterion y mae Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir o'r farn y dylid tynnu sylw'r Bwrdd cyfan atynt yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2023.
2. Am ragor o fanylion, gall holl aelodau'r Bwrdd weld agendâu, papurau a chofnodion y pwyllgorau drwy'r porth Diligent.

Adroddiad y Pennaeth Busnes

3. Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad a ddarparwyd gan y Pennaeth Stiwardiaeth Tir ar faterion cyfredol, a gyflwynwyd yng nghyd-destun tri o Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol: Byd natur wrthi'n gwella; Cymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd; Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf. Croesawodd y Pwyllgor ddull yr Adroddiad.
4. Cafwyd diweddariad ar faterion masnachol cyfredol.

Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch

5. Roedd y Bwrdd wedi gofyn i'r Pwyllgor graffu ar gamau gweithredu yn dilyn y gwaith parhaus ar Ddiogelwch Coedwigaeth, a'r Adroddiad Llesiant, lechyd a Diogelwch mewn perthynas ag aelodau'r cyhoedd. Derbyniwyd adroddiad gan y Rheolwr Llesiant, lechyd a Diogelwch ar Adroddiadau Adolygiadau o Beryglon, Achosion fu bron a digwydd ac iddynt ddigwydd a Digwyddiadau Difrifol ar y tir dan ofal CNC o 2020/21 i 2022/23.
6. Trafododd y Pwyllgor y problemau gyda phentyrru coed yn uchel. Pwysleisiwyd nad oedd CNC yn caniatáu hyn ac esboniwyd yr offer a ddefnyddiwyd wrth werthu coed a'r trefniadau rheoli contractau. Roedd CNC yn cymryd rôl arweiniol fel rhan o Gytundeb Diogelwch y Diwydiant Coedwigaeth i geisio sicrhau newid diwylliannol yn y diwydiant coedwigaeth. Gofynnodd y Pwyllgor am gynnwys manylion y camau cosbi ar gyfer pentyrru uchel yn yr Adroddiad yn y dyfodol.
7. Adolygwyd y wybodaeth am anafiadau i'r cyhoedd ar Ystad CNC o 2020 i 2023. Roedd y Pwyllgor yn bryderus am y ffigurau mewn perthynas â beicio mynydd a gofynnodd am roi ystyriaeth fanwl i hyn fel rhan o'r gwaith ar y Strategaeth Hamdden ddrafft.

Cyflwyniad gan Wood Knowledge Wales

8. Daeth Wood Knowledge Wales i gyfarfod y Pwyllgor i roi cyflwyniad ar Adroddiad y Grŵp Cyngori Technegol ar reoli coetiroedd Cymru yn y dyfodol fel rhan o Archwiliad Dwfn Llywodraeth Cymru o Goed a Phren. Croesawodd y Pwyllgor yr Adroddiad gan ystyried yr argymhellion ar gyfer cydnerthedd ac addasu i newid yn yr hinsawdd.
9. Trafododd y Pwyllgor y problemau gyda'r gadwyn gyflenwi ar gyfer coed Cymru yn y sector adeiladu, pwysigrwyd sicrhau bod cydnerthedd natur a bioamrywiaeth yn cael eu blaenoriaethu ochr yn ochr ag addasu i newid yn yr hinsawdd, a rôl polisi o safbwynt sicrhau newid.
10. Trafodwyd arloesedd a datblygu dull beiddgar o weithredu argymhellion yr Adroddiad. Pwysleisiodd y Pwyllgor rôl allweddol strategaeth defnydd tir Llywodraeth Cymru.

Diweddariadau ar y Broses Gwerthu Pren Amgen a'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren

11. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y Broses Gwerthu Pren Amgen a'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren.
12. Nodwyd y byddai'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren yn llywio'r Broses Gwerthu Pren Amgen. Roedd hyn wedi arwain at oedi ar dair o'r pum ffrwd waith ar ddulliau amgen o werthu pren. Roedd y Pwyllgor yn bryderus i nodi'r oedi hwn, gan amlygu'r anawsterau i gyfathrebu'r problemau'n allanol.
13. Gofynnodd y Pwyllgor am archwiliad dwfn i'r eitem yn y cyfarfod nesaf.

Rhaglen Trydan

14. Darparodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y Rhaglen Trydan.

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

15. Ystyriwyd y diwygiadau drafft i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor. Gofynnwyd am eglurhad o lif craffu ar wybodaeth lechyd a Diogelwch rhwng y Pwyllgor a'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid.

Eitemau er Gwybodaeth

16. Derbyniwyd yr Adroddiadau canlynol er gwybodaeth: Adroddiad Chwarterol y Fframwaith Risg Stiwardiaeth Tir a'r Fframwaith Gwerthuso; Diweddariad ar y Strategaeth Hamdden Ddrafft; Adroddiad Archwilio Mewnol – Seilwaith Coedwigaeth; Dangosfwrdd y Cynllun Gwasanaethau Masnachol..

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	16 Tachwedd 2023
Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (y Pwyllgor) ar gyfer y Bwrdd
Cyfeirnod y Papur:	23-11-B16
Noddir y papur gan:	Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y papur gan:	Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor
Pwrpas y papur:	Gwybodaeth
Crynodeb	Mae'r crynodeb hwn yn rhoi diweddariad ar faterion yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2023.

Cefndir

1. Mae'r crynodeb hwn yn darparu diweddariad ar faterion y mae Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig o'r farn y dylid tynnu sylw'r Bwrdd cyfan atynt yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2023.
2. Am ragor o fanylion, gall holl aelodau'r Bwrdd weld agendâu, papurau a chofnodion y pwyllgorau drwy'r porth Diligent.

Tirweddau Dynodedig

3. Rhoddodd Prif Gynghorydd y Tirweddau Dynodedig ddiweddariad a oedd yn cynnwys sesiynau ymgysylltu cyhoeddus a oedd ar y gweill ar gyfer y Parc Cenedlaethol arfaethedig a'r cyllid ar gyfer 2025-26. Trafododd y Pwyllgor yr ymgynghoriad arfaethedig, y broses ddynodi a'r heriau a'r cyfleoedd i CNC gyda'r Parc Cenedlaethol arfaethedig.

Rhaglenni Safleoedd Gwarchoddedig

4. Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch gwaith ar Safleoedd o Ddiddordeb Arbennig (SoDdGA) posibl pellach.

5. Darparodd Prif Gyngorydd Arbenigol y Rhaglenni Safleoedd Gwarchodedig gyflwyniad am adroddiad cyfredol y dangosfwrdd corfforaethol. Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth i hwyluso'r broses o graffu ar waith tîm y Rhaglen Safleoedd Gwarchodedig. Trafodwyd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chadarnhawyd bod CNC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru. Awgrymwyd paratoi briff ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Papur Gwyn ar dargedau bioamrywiaeth ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.

Data Safleoedd Dynodedig ac Adroddiad Sefyllfa Systemau

6. Darparodd y Prif Gyngorydd Arbenigol – Daearol gyflwyniad ar elfennau craidd dull data safleoedd gwarchodedig CNC. Trafododd y Pwyllgor feddalwedd Safle, y gronfa ddata ar gyfer safleoedd gwarchodedig, a phryderon am yr adnoddau ynghlwm wrth hyn. Gofynnwyd am gael trafod hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Eog – Datblygu Cadernid mewn Ecosystemau Afonol

7. Trafododd y Pwyllgor yr opsiynau radical arfaethedig, gan wneud awgrymiadau yn cynnwys rhai ar gwmpas y gwelliannau ar gyfer cyfathrebu ac addysg. Roedd angen ystyried goblygiadau cost ac ymdrech yr argymhellion, er mwyn eu blaenoriaethu'n briodol. Dylai cysylltu â chyllid amgen a chydweithio ag eraill i weithredu'r argymhellion fod yn uchelgais hefyd.

Trefniadau Ilywodraethu'r Pwyllgor

8. Trafododd a darparodd y Pwyllgor awgrymiadau ar gyfer y Cylch Gorchwyl diwygiedig.

Y Gofrestr Risg Strategol

9. Cyflwynodd y Prif Gyngorydd Arbenigol ar Risg Gofrestr Risg Strategol wedi'i diweddarau, gan bwysleisio mai fersiwn drafft ydoedd. Trafododd a darparodd y Pwyllgor awgrymiadau ar gyfer y Gofrestr.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	16 Tachwedd 2023
Teitl y papur:	Diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru (y Fforwm)
Cyfeirnod y Papur:	23-11-B17
Noddir y Papur gan:	Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd y Fforwm
Paratowyd y Papur gan:	Bronwen Martin, Cynghorydd Arbenigol: Rheoli Tir Cymru
Cyflwynir y Papur gan:	Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd y Fforwm
Pwrpas y Papur	Information

Fforwm Rheoli Tir Cymru

1. Cynhelir cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru bedair gwaith y flwyddyn, ac maen nhw'n gyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau aelodaeth eraill y Fforwm rannu gwybodaeth, nodi diddordebau cyffredin a chydweithio ar faterion rheoli tir strategol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Fforwm Rheoli Tir Cymru \(WLMF\)](#)

Diweddariad

Cyfarfod 18 Medi 2023

2. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf ar 18 Medi 2023.
3. Ymunodd Keith Davies, CNC, â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith CNC ar y Rhaglen Tirweddau Dynodedig.
4. Rhoddodd Geraint Richards, CNC drosolwg a diweddariad ar yr Adolygiad o Esemptiadau Gwastraff. Yn dilyn y drafodaeth, cytunodd y grŵp y byddai crynodeb ysgrifenedig o wybodaeth allweddol yn ddefnyddiol.
5. Cafodd holl aelodau'r Fforwm gyfle i holi am Diweddariadau CNC a rhannu diweddariadau gan eu sefydliadau eu hunain hefyd.
6. Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ddydd Llun 11 Rhagfyr 2023.

7. Unwaith y bydd yr aelodau wedi adolygu a chytuno'n ffurfiol ar y cofnodion, byddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen y Fforwm ar wefan CNC.

Is-grŵp Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

8. Prif bwrpas Is-grŵp y Fforwm yw nodi cyfleoedd i ddileu llygredd amaethyddol yng Nghymru wrth gynnal sector ffermio ffyniannus yn dilyn pum thema allweddol (cyngor ac arweiniad, dull gwirfoddol, rheoleiddio, arloesi a buddsoddiad), a gweithio ar y cyd ag ystod o randdeiliaid amaethyddol ac amgylcheddol.

[Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol](#)

Diweddariad

Cyfarfod 4 Medi 2023

9. Cafodd y grŵp gyflwyniad gan Polina Cowley, Llywodraeth Cymru ar ganlyniadau'r modelu senarios amonia diweddar.
10. Rhoddodd Donal Sheehan, Prosiect BRIDE gyflwyniad i'r grŵp ar ei brosiect sy'n ceisio cynllunio a gweithredu dull seiliedig ar ganlyniadau i warchod, gwella ac adfer cynefinoedd ar dir ffermio dwys yr iseldir.
11. Cyflwynodd Ieuan S. Davies, CNC a Delyth Lewis-Jones, AHDB y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Grŵp Technegol Amaethyddol (ATG) Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Sefydlwyd yr ATG ar gais Zoe Henderson, a'r cylch gorchwyl oedd adolygu a cheisio cytundeb ar yr amrywiaeth eang o dystiolaeth am lygredd amaethyddol o'r sectorau gwahanol. Roedd y grŵp i edrych ar y dystiolaeth, cytuno ar yr hyn oedd ar goll ac argymhell camau (ac yn wir cymryd perchnogaeth o'r camau hynny) i lenwi'r bylchau mewn tystiolaeth.

Cyfarfod 2 Hydref 2023

12. Ymunodd Helen Broughton, United Utilities â'r cyfarfod i roi cyflwyniad am brosiect ar Afon Dyfrdwy sy'n defnyddio data lloeren ar gyfer gwaith trin Huntington a Sutton Hall. Roedd y prosiect yn cynnwys monitro llif a thyrfedd parhaus, samplu ar y pryd, dadansoddiad o waddodion crog a thyrfedd, adolygiad o'r modelu seicig a datblygu opsiynau lliniaru.
13. Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad llafar ar y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad ar gynllun trwyddedu.
14. Cynhelir Is-grŵp nesaf y Fforwm ddydd Llun 6 Tachwedd 2023.
15. Unwaith y bydd aelodau wedi adolygu'r cofnodion a chytuno arnynt yn ffurfiol, fe'u cyhoeddir ar dudalen Is-Grŵp y Fforwm ar wefan CNC.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	16 Tachwedd 2023
Teitl y papur:	Adroddiad Perfformiad Ariannol
Cyfeirnod y Papur:	23-11-B19
Noddir y Papur gan:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid
Paratowyd y Papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Andrea Morgan, Rheolwr Cyllid Busnes
Cyflwynir y Papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Andrea Morgan, Rheolwr Cyllid Busnes
Diben y Papur:	Cymeradwyaeth (newid mewn rhagolygon) / Trafodaeth (Perfformiad Ariannol)
Crynodeb	<p>I gymeradwyo:</p> <p>Newid yn y rhagolwg diweddaraf o £264.9m i £266.9m a ragwelir.</p> <p>I graffu ar:</p> <p>Berfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Medi 2023.</p>

Cefndir

1. Mae papur ar wahân ar gyfer cymeradwyaeth.

Perfformiad ariannol hyd at 30 Medi 2023

2. Mae'r adroddiad Perfformiad Cyllid yn rhoi manylion am gynnydd ar draws y mathau gwahanol o incwm, gwariant a rhaglenni. Mae Atodiad A yn crynhoi'r negeseuon allweddol mewn perthynas â:

- Newid yn y rhagolygon o'i gymharu â'r rhagolwg blaenorol a gymeradwywyd a'r gyllideb wreiddiol.
- Perfformiad hyd at ddiwedd mis Medi 2023, o'i gymharu â'r rhagolwg blaenorol a gymeradwywyd a'r gyllideb wreiddiol.
- Risgiau i ni allu gwario o fewn ein lefelau ariannu oherwydd effaith pwysau cyflog a lefel yr incwm pren.

- Sylwebaeth drwy eithriad ar sut rydym yn symud ymlaen yn erbyn y rhagolwg diweddaraf ar gyfer y mathau gwahanol o incwm a gwariant.

Risgiau a chyfleoedd

3. Mae gennym risg yn y Gofrestr Risg Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer 'gwariant yn ystod y flwyddyn'. Mae hyn hefyd yn cysylltu â SR01 (Ariannu annigonol – Tymor Canolig). Hyd yn oed gyda chyllideb fwy na'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r rhagolygon presennol yn heriol oherwydd effaith costau staff a lefelau incwm pren. Mae hyn yn cael ei ddisodli gan risg strategol newydd "Methiant i sicrhau sefydlogrwydd ariannol".
4. Ar hyn o bryd, mae gennym bwysau o £4m oherwydd gostyngiad mewn incwm pren ac rydym yn trafod rhan o'n hateb i gydbwysu'r pwysau cyflog gwreiddiol, h.y. cynnydd cymesur mewn tâl i raglenni a phrosiectau (£1.8m), gyda Llywodraeth Cymru. Felly, mae hyd at £6m o risg ar ein cyllideb refeniw. Rydym yn cynnal ymarfer arall i weld pa newidiadau eraill y gallwn eu gwneud i'n gwariant anymrwymedig i helpu i gydbwysu'r gyllideb. Rydym yn parhau i osod rheolaethau tynn ar recriwtio allanol. Bydd diweddariad ar gael i'r Bwrdd.
5. Y goblygiadau ehangach yw:
 - (a) **Cyllid:** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â pherfformiad ariannol CNC. Mae gennym risg o fewn Cofrestr Risg y Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.
 - (b) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** Mae pob elfen o'r gyllideb yn cyfrannu at un neu lawer o'n Hamcanion Llesiant.

Y Camau Nesaf

6. Bydd y Tîm Gweithredol yn ystyried camau pellach i gydbwysu'r gyllideb. Rydym yn parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid ychwanegol a'r tâl am raglenni a phrosiectau.
7. Rydym yn annog rheolwyr cyllideb a phrosiectau i hysbysu Cyllid am unrhyw newidiadau i'r rhagolygon y gellir eu dychwelyd yn ganolog.
8. Byddwn yn parhau i gyflawni ein prosesau cyllid arferol ac yn adolygu'r risgiau o fewn y gyllideb gydol y flwyddyn. Mae rhaglenni fel Trawsnewid Busnes, Llifogydd a Natur ac Argyfyngau Cyfalaf yn cael eu hail-ragfynegi bob mis.
9. Cynhyrchir yr adroddiad hwn bob deufis ar gyfer y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.

Argymhelliad

10. Y Bwrdd i gymeradwyo newidiadau i'r rhagolwg diweddaraf, o £264.9m i £266.9m.

11. Y Bwrdd i graffu ar berfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Medi 2023.

Mynegai Atodiadau

Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Ariannol



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales



**Board
September 2023
Finance Report**

Financial Performance – Measures being taken



Update will cover:

1. Update on the latest forecast changes from the opening budget reported as at end September 2023.
2. Financial Performance as at end September 2023.
3. Update on the plan to balance in year budgetary pressures, including the anticipated pay award for 2023/24 and non-consolidated payment to staff plus new pressures such as the drop in timber income forecast.
4. A new page has been introduced, summarising the contingency and over-programming budgets held within NRW.
5. Request that the Board approve the change in approved forecast from £264.9m to £266.9m.


Messages:

1. The original plan to find £5.3m of savings to balance the budget is at risk. WG have questioned our plans to increase the corporate cost charge to programmes and projects (£1.8m). In addition, the recruitment freeze is not realising the savings that were originally modelled - this is due to recruitment between the date that the modelling was undertaken and the recruitment freeze and the exceptions decisions taken during the freeze. However, there is some flexibility within the overall pay budget, which should allow us to meet the target of £2m. This will be considered by the Planning and Resources Group (PRG) prior to Executive Team (ET) on 31 October to inform the next stages of the recruitment freeze. The previously identified liability linked to IR35, is likely to have an impact in a future financial year.
2. Given the level of budget deficit and the likelihood that recruitment restrictions will remain in place, any salary savings achieved every month will be deducted from Directorate budgets. The overall salary position and the requirement to make budget savings means that the pressure needs to be overseen centrally. Please note, that the overall position to date is an overspend. This will begin in October.
3. The central overprogramming budget still stands at £2.5m, this is reduced from £3.5m in the opening budget. This has been factored into the calculation of £5.3m savings needing to be found. That is too high, given the level of other savings that need to be found. Since September, extra income has been forecasted of £0.2m and a further reduction in the Water Resources capital expenditure programme of £0.1m. This should be set against this target, thus reducing it to £2.2m.
4. After September period was closed, the timber income forecast has been reduced to £32m from the original budget of £36m. It was decided to use the unallocated timber income (£3m) as part of the strategy of balancing pay pressures at the time. It was in late August that we identified that timber income would need to be reduced.
5. Other staff costs - travel, subsistence & people support costs will over spend if we continue to spend at the same rate to the end of the financial year. Given the current financial pressures, we are not in a position to absorb additional costs and should look to limit costs in these areas going forward.
6. A further exercise to realise £4m savings was scheduled to complete by 20 October by focussing on uncommitted spend. This will be considered by PRG and ET on 31 October and in early November respectively. We have also discussed and written to WG about our pressures on the revenue budget and await their formal response, though they have re-iterated that overall pressures on Welsh Government's revenue budget remain.
7. The Flood capital programme is currently over-programmed by £7.9m. WG have confirmed additional funding of £7m, which should now alleviate that programme of the financial pressure this year. Another lessons learnt exercise has been commissioned, which will be undertaken independently. Additional reservoirs funding of £0.5m has also been allocated. These changes to the forecast will be processed in October.

Financial Performance – Measures being taken

Measures taken	Plan £m	Achieved £m	RAG status £m	Commentary
Staff costs	2.0	0.0	Yellow	Whilst we are forecasting that we will not achieve the target through recruitment restrictions - this will be mitigated as there is some flexibility within the overall pay budget, which should allow us to meet the target of £2m.
Non staff costs	1.0	1.0	Green	Achieved in August.
Programmes and projects	1.8	0.0	Red	The charge have been challenged by Welsh Government. We are awaiting their formal response. It maybe that part of the charge will be accepted this financial year (to Flood capital and option fees).
Charge income reserves	0.5	0.5	Green	Factored into modelling that the charge consultation proposals were built upon.
Further non staff costs savings	4.0	0.0	Red	Exercise scheduled to be completed in October and will be considered by PRG / ET.
TOTAL: NRW	9.3	1.5		We have also written to WG concerning the pressures and explained that it's unlikely we will be able to balance the revenue budget.

Financial Performance – Income Forecast



Charges

Slight reduction in EPR installation income of £0.1m.

Commercial & Other Income

Slight increase of £0.1m linked to staff on secondment to external organisations.

European & Other External

External income increased by £0.7m linked to two projects, Natur am Byth (£0.6m) and Sands of Life (£0.1m).


Grant in Aid

Additional WG grant income of £1.1m for Coal Tips Safety work.

Use of Reserves

Additional income recognised from reserves to cover additional charge posts (£0.2m) and the impact of charge income reducing (£0.1m).

Financial Performance – Expenditure Forecast



Staff

An increase of £0.3m in staff costs from July, mainly as a result of the confirmation of external funding for a number of overprogrammed posts and the allocation of budgets to previously set up posts, where the funding was held within non staff costs.

Non Staff

Small increase in non staff costs of £0.1m following the recategorisation of expenditure plans from projects.

Revenue Projects

Revenue project budgets increased by £0.2m as a result of additional external funding (£0.5m) for Natur Am Byth & LIFE projects offset by savings identified as part of the August expenditure review (-£0.3m) and recategorisation of expenditure plans to non staff costs and capital projects (£0.1m).

Capital Projects

Capital project budgets have increased by £1.4m. This is primarily due to the WG Coal Tip Safety Grant and the recategorisation of Business Transformation core work into the Capital Programme.

Financial Performance - Income




INCOME	Actual	Approved	Variance	Approved	Remaining	Commentary
by Account Type	YTD	Forecast	YTD	Forecast	Budget	
	£m	£m	£m	£m	%	
Charges	28.8	29.3	-0.5	43.7	34%	We are seeing a negative variance across the charge schemes, this is due to a lower than expected take up of our new permitting and application charges. The Regulation Business Management team are mid way through a reforecast and a revised position will be reflected in the October report. Shortfall will have an impact on charge balances.
Commercial	26.3	27.7	-1.4	60.7	57%	Timber sales have seen a marked drop in both quantities dispatched and despatch prices since late July. A reduced forecast of £32m was agreed at September's Commercial Business Group. Once the minutes have been confirmed, we will seek approval in line with Managing Our Money and reflect the revised position in the October reports.
European & external	2.1	2.3	-0.2	7.2	71%	The current variance is almost solely linked to the Dee LIFE project. This will be reviewed and adjusted for future reporting periods.
Grant in aid	67.9	67.9	-0.0	153.8	56%	Income received is in line with expectations. Welsh Government have confirmed an additional £7m for the flood capital programme and £0.5m for reservoirs capital programme, which should alleviate the current over programmed position. Most outstanding grant offer letters from Welsh Government have now been received.
Use of Reserves	0.0	-0.0	0.0	1.5	100%	
TOTAL: NRW	125.1	127.3	-2.2	266.9	53%	

Financial Performance - Expenditure

EXPENDITURE	Actual	Approved Forecast	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Commentary
by Account Type	YTD £m	YTD £m	YTD £m	FY £m	FY %	
Staff	58.0	57.0	-1.0	116.3	50%	<p>The vacancy rate remains unchanged from July at 8%. There is an underspend of £0.6m on pay costs but a large number of the current vacant posts are project funded which is leading to an under recovery of project recharges of £1.2m and results in an overall overspend of £0.6m. We are currently in the recruitment freeze but still seeing an increase in overall staff numbers (staff joining, appointed before the freeze) so the impact on financial performance won't be seen until later this financial year. At this point, it's unlikely that the recruitment freeze will deliver the targeted savings, however, there is some flexibility within the overall pay budget, which should allow us to achieve the £2m.</p> <p>An overspend on other pay costs (£0.4m) across the Directorates on temporary contractors, travel & subsistence and people support costs and needs to be reviewed within Directorates.</p>
Non Staff	33.6	33.6	0.1	84.2	60%	<p>An overall neutral position but with over/underspends across the Directorates over a number of categories. No risks currently identified but a review of budget profiles is continuing. Following the likely reduction in timber income, a number of these areas are being reviewed to help fund the shortfall. PRG will consider the options proposed.</p>
Revenue Projects	3.7	3.4	-0.3	12.1	69%	<p>There are minor variances over numerous projects. The risk in the revenue programme is currently low. Projects are currently required to absorb the impact that the increased level of pay award (and potentially overheads) will have on their budgets. The assessment is ongoing, however, projects reviewed to date have not identified any risk in absorbing the additional costs.</p>
Capital Projects	25.3	21.0	-4.2	54.4	54%	<p>The current over spend of £4.2m is predominantly linked to the Flood Capital Programme. Over programming is currently £7.9m for the full year. Stephenson Street and Ammanford are ahead of target and main contributors to the overprogramming.</p> <p>Welsh Government have confirmed additional funding for Flood (£7m) and Reservoirs (£0.5m) subject to certain conditions, which will be processed next month.</p>
TOTAL: NRW	120.5	115.0	-5.5	266.9	55%	

Financial Performance – Expenditure Trends

EXPENDITURE TRENDS



Commentary

As expected, we continue to see an increase in expenditure this financial year compared to the same point in previous years. Spend at the end of September is £120.5m, which is £24.8m more than that incurred at the same point last financial year.

The full year forecast for this year is currently £266.9m which is £20m more than the costs incurred last financial year. So, there needs to be a relative slow down in expenditure to remain within budget.

Financial Performance – Staff Costs



STAFF COSTS	Actual	Approved Forecast	Variance	Variance	Approved Forecast	Commentary
by Account Type	YTD £m	YTD £m	YTD £m	YTD %	FY £m	
Staff Costs	63.6	69.6	6.0	-9%	139.2	<p>There is an overspend of (£0.6m) on staff costs net of recharges at the end of September. Whilst the recruitment freeze has been in place since August we are yet to see a positive impact on the staff budgets. Staff numbers continue to rise (staff recruited prior to freeze, now starting) and the vacancy rate has remained at 8% since July. As a result we are unlikely to see any changes to financial performance until later this year.</p> <p>The £1500 non consolidated payment was made during September at a cost of £3.4m plus on costs (pension & National Insurance), which has been funded from the central pay contingency, where the balance now stands at £6.9m.</p> <p>Overprogramming post budgets have reduced by £0.2m following confirmation of funding. There remains a balance of (£1m) but is considered to be fairly low risk as the majority relates to WG funding and is expected to be received by the end of the financial year.</p> <p>There remains a balance of £0.6m to be allocated to new posts which has reduced by £0.6m since July.</p>
Non Consolidated Payment	3.5	3.5	0.0	0%	3.5	
Pension Adjustment	-3.5	-3.5	0.0	0%	-7.0	
Vacancy Turnover Budget	0.0	-4.9	-4.9	-100%	-11.7	
Overprogramming Budget	0.0	-0.5	-0.5	-100%	-1.0	
Directorate Staff Budget Undistributed To Position	0.0	-0.0	-0.0	-100%	0.6	
Central Pay Contingency	0.0	0.0	0.0	0%	6.9	
Workforce Recharges	-8.7	-9.9	-1.2	-12%	-20.1	
Sub Total - Staff Trajectory Costs	54.8	54.3	-0.6	-3.2	110.5	
Other Staff Costs	3.2	2.7	-0.4	16%	5.7	
TOTAL: NRW	58.0	57.0	-1.0	-2%	116.2	

Financial Performance – Staff Trajectory



Current Vacancy Level (comparing current staff to budgeted structure)	Current Month		Previous Month		Change	Commentry
	fte	%	fte	%	fte	
Budgeted Structure	2,699.1		2,652.7		46.4	As noted in previous sections on the report, the vacancy rate has remained at 8% from July. The budgeted structure has increased by 46ftes however the number of staff in the structure has increased by 27ftes. This has resulted in a slight increase in the rate, moving from 7.6% to 8.2% but once rounded equates to an overall 8% vacancy rate.
Staff in Structure	2,478.4		2,452.6		25.8	
Current Vacancy Level	220.7	8%	200.1	8%	20.6	
Analysis of Vacancy Level						
Vacant Budget Posts	302.6	11%	286.1	11%	16.6	
Impact of Part Time Staff in Budget Posts	-4.1	0%	0.7	0%	-4.8	
Staff in Unbudgeted Posts	-77.9	-3%	-86.7	-3%	8.8	

***** NOTE*****

Please note that the vacancy level in this slide is based on current vacancy level for this month based on staff numbers. When comparing this to the financial variance there will be differences relating to:

- 1) Financial Performance in previous slide is cumulative and therefore subject to fluctuations in actual vacancy level over previous months
- 2) Timing delay in Agency Staff payments
- 3) Variances caused by spread on staff in pay points compared to budget level at pay point 3.
- 4) Amendment to in year financial turnover targets to manage underspend from previous months.

Financial Performance – Revenue Projects

Revenue Projects	Actual	Approved Forecast	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Commentary
by Programme	YTD £m	YTD £m	YTD £m	FY £m	FY %	
External Funded	1.9	1.7	-0.2	5.1	64%	Overall revenue projects are on target. With a number of projects funding staff, they are being reviewed by the relevant project/programme lead to assess the ability to absorb the increase in staff costs and potentially overheads. A selection of projects are also being reviewed to help address the funding deficit this financial year.
Internal Funded	0.8	0.9	0.1	2.6	68%	
NaCE	0.5	0.3	-0.2	1.4	64%	
Other	0.0	0.0	0.0	0.1	84%	
Business Transformation	0.2	0.2	0.0	0.9	77%	
Grants	0.3	0.3	0.0	1.9	86%	
TOTAL: NRW	3.7	3.4	-0.3	12.1	69%	

Financial Performance – Capital Projects



Capital Projects	Actual	Approved Forecast	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Commentary
by Programme	YTD £m	YTD £m	YTD £m	FY £m	FY %	
Business Transformation	3.3	3.2	-0.1	8.4	61%	The programme is currently showing as slightly ahead of target to date. There is 61% of the annual budget remaining to be spent. A large amount of this is due to a delay in works on the Future Tech work stream, which has just under £1m currently sat on the BT capital holding code. Discussions are being held to assess whether or not the full allocation will be needed this financial year.
External Funded	1.1	1.1	0.0	3.7	70%	
Flood Risk	12.9	8.9	-4.0	17.0	24%	The programme is ahead of profile by £4m, predominantly linked to overprogramming which is currently £7.8m for the financial year. Welsh Government have confirmed an additional £7m for the capital programme, which should alleviate the majority of the current over programmed position.
Internal Funded	1.0	1.1	0.1	4.2	75%	
NaCE	6.9	6.7	-0.2	21.2	67%	Whilst the NaCE programme is currently overprogrammed by £5.8m, performance to end September is ahead of target by £0.2m. The over-programming will be monitored and managed down throughout the remainder of the year to equal the funding available for the programme. It is due to be significantly lower next month following the six month deep dive into projects.
TOTAL: NRW	25.3	21.0	-4.2	54.4	54%	Note: All these programmes fund staff costs and overheads, which will now increase placing an additional burden on programmes and individual projects. The assessment has begun during September and October, with no risk being identified to date. Most projects and programmes had already accounted for a pay increase in their forecasts and any underspend can be used to offset an increase in the overhead. We are still waiting for the approval of the proposed increase in overheads across WG funded projects.

Contingency and over-programming budgets

Balances (contingencies and programme under/overs)	Previous Month	Current Month	Movement	Commentary
	(August) £m	(September) £m		
In Year Pressure balancing targets				
Staff costs reduction target	-2.0	-2.0	0.0	A review is currently ongoing to forecast the impact that the recruitment freeze is having on the staff forecast to end of the financial year. The results of this review will be presented to PRG in October. The freeze will not realise the £2m savings target but this will be mitigated within the other pay provision budget (see below).
Non staff costs reduction target	-1.0	0.0	1.0	The non staff savings identified in the initial exercise have been distributed. Further savings are required to meet the additional pressures on the budget following the reduction in timber income forecast.
Increased overhead charge distribution	-1.8	-1.8	0.0	A review was undertaken to confirm that this additional overhead charge could be absorbed within the existing project/programmes budgets. This is still pending agreement with Welsh Government.
Staff				
Other Pay Provision	10.4	6.9	-3.4	The budget for the non consolidated payment of £1,500 to staff has been distributed to Directorates in September. A 5% pay award is likely to cost £5.2m (excluding project posts). Therefore, we should realise £1.7m savings towards the £2m staff costs reduction target - see above.
Programmes - under/over programming				
NaCE	-6.2	-5.9	0.3	Detailed project reviews are in progress , the results will be processed in MyNRW in October/November and the expectation is that the over-programming will reduce significantly. Projects were assessed during September when it was possible that funding may have been required to assist the Flood Capital Programme.
Flood Risk capital	-10.5	-7.9	2.6	WG have confirmed additional £7m funding that will reduce the over- programming and ensure we can continue with the construction works at Stephenson Street and Ammanford.
Business Transformation	-1.2	-1.0	0.2	We will be meeting with the programme leads during October to gather the latest forecasts and the plan to manage downwards this over-programming to bring in on target by year end. One area is the Future Technology project which is yet to begin and will likely result on slippage and savings to offset the over-programming.
Water Resources capital	0.5	0.3	-0.2	The under programming has reduced in this month by £150k, due to the hand back of funds centrally, expectation is that further funds will be returned.
Welsh Government grants	0.0	-0.2	-0.1	Largely Wales Coastal Path £0.133m, with smaller balances on some of the other grants.
Other				
Central over-programming	-2.5	-2.5	0.0	This is the approved over-programming level for the NRW budget and will be managed downwards as we move through the financial year. This should reduce to £2.2m in October.
Central contingencies	0.3	0.4	0.1	This is predominantly overheads on externally funded projects that have not been distributed for use, the recommendation is that this is used to offset the balance on the Central over-programming.
Directorate over-programming	-0.3	-0.2	0.1	This is largely due to overprogramming within the core facilities programme.



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**



Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	16 Tachwedd 2023
Teitl y Papur:	Ymateb CNC i'r weledigaeth a rennir, Natur a Ni
Cyfeirnod y Papur:	23-11-B20
Noddir y papur gan:	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Paratowyd y papur gan:	Russell De'ath, Uwch Gynghorydd Arbenigol, Natur a Ni
Cyflwynir y papur gan:	Russell De'ath, Uwch Gynghorydd Arbenigol, Natur a Ni
Pwrpas y papur:	Gwybodaeth
Crynodeb	I nodi'n hymateb i Natur a Ni a chynlluniau'r dyfodol.

Cefndir

1. Rydym am sicrhau bod y Weledigaeth Natur a Ni a grëwyd gan bobl Cymru yn ganolog i'r gwaith o gyflawni'n Cynllun Corfforaethol, ein Hamcanion Llesiant, a sut rydym yn parhau i geisio Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.
2. Gallwn wneud hyn drwy nodi ymateb clir i Weledigaeth Natur a Ni – amlinellu beth mae'n ei olygu i CNC o ran sut rydym yn gweithio, o safbwynt cyflawni ein swyddogaethau ac mewn partneriaeth ag eraill.
3. Wrth gyhoeddi'r weledigaeth ar 24 Gorffennaf, ymrwymodd CNC i ddarparu ymateb ffurfiol. Wrth wneud hynny mae'n dangos ein hymrwymiad i beth mae pobl Cymru am ei weld ar gyfer y dyfodol - ac yn dangos y gwahaniaeth rhwng Natur a Ni a CNC. Mae'r llythyr atodedig yn cyflwyno ein hymateb arfaethedig.
4. Mae'r ymateb yn adeiladu ar drafodaethau strategol yn y Tîm Gweithredol ac adborth gan gyfarfodydd staff gydol misoedd Mehefin a Gorffennaf yn ogystal â mewnbwn gan Aelodau'r Bwrdd drwy sesiynau galw i mewn gydol yr haf a'r hydref.
5. Mae'r Tîm Gweithredol wedi cymeradwyo'r ymateb.

Risgiau, Parodrwydd i Dderbyn Risg a chyfleoedd

6. Os nad ydym yn bwrw ymlaen gyda'n hymateb i'r Weledigaeth mae yna berygl y bydd y broses Natur a Ni gyfan yn cael ei gweld fel gimic, ac na fydd yn cael ei gwerthfawrogi gan CNC nac yn gyrru camau gweithredu ystyrion i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.
7. Gallai ddiffyg cymorth/arweiniad gweladwy yn dilyn cyhoeddi'r Weledigaeth olygu ei bod yn chwythu ei phlwc, gan golli'r cyfle i adeiladu'r symudiad/clymblaid ehangach ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i weithredu.
8. Mae yna fanteision enw da i ddangos sut mae CNC wedi ymgorffori Gweledigaeth Natur a Ni yn ei waith – yn benodol o ran gweithredu pum ffordd o weithio Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, ein pwrpas craidd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ar egwyddorion ymgysylltu â'r cyhoedd.

Goblygiadau ehangach

(a) **Amcanion Llesiant:** Mae nodi ein hymateb ffurfiol i Weledigaeth Natur a Ni yn helpu i egluro ein rôl o safbwynt cyflawni beth mae pobl yng Nghymru wedi'i nodi yn y Weledigaeth. Mae ein Cynllun Corfforaethol yn cyd-fynd yn dda â'r Weledigaeth, ac yn ddelfrydol byddai'r amseriad wedi bod y ffordd arall – felly mae hyn yn helpu i gau'r ddolen ac yn darparu'r cyfeiriad tymor hwy hyd at 2050.

(b) **Cyllid:** Mae'r adnoddau hyd at, ac yn cynnwys cyhoeddi'r ymateb i Natur a Ni wedi'u cynnwys yng nghostau'r Rhaglen ar gyfer 2023-24.

(c) **Goblygiadau o ran adnoddau:** Mae'r ymrwymadau y bydd yr ymateb yn eu gwneud, a amlinellir yn y llythyr (Atodiad 1), wedi'u gwerthuso yn erbyn ymrwymadau cyfredol y Cynllun Corfforaethol ac maent yn cyd-fynd â'r camau cyfredol i'w cymryd, "sut rydym ni'n cyflawni" a'n gwerthoedd. Bydd ymgorffori'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu o fewn swyddogaethau cyfredol yn ofynnol. Mae'r Tîm yn cynnwys staff perthnasol yn y broses werthuso ac wedi ymrwymo i rannu'r hyn a ddysgir yn sgil Natur a Ni yn ehangach er mwyn helpu gyda hynny. Mae rhaglen ar wahân yn cael ei sefydlu i sicrhau bod manteision sefydliadol y Rhaglen Natur a Ni yn cael eu gwireddu, a bydd hyn yn helpu i yrru'r ymrwymadau a wnaed yn yr ymateb yn eu blaenau.

(d) **Cydraddoldeb:** Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn briodol i'r papur hwn, ond mae angen ei ystyried fel rhan o unrhyw gamau gweithredu i ddatblygu'r ymateb.

(e) **Diogelu Data:** Nid oes unrhyw oblygiadau o ran diogelu data.

Y Camau Nesaf

9. Yn amodol ar unrhyw addasiadau gan y Prif Swyddog Gweithredol a chymeradwyaeth y Bwrdd, bydd y llythyr yn Atodiad 1 yn cael ei gyhoeddi yn Wythnos Hinsawdd Cymru a gynhelir ar 4-8 Rhagfyr, fel llythyr agored a bydd yn cael ei anfon at Brif Swyddog

Gweithredol pob corff cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yn helpu i atgoffa pobl yn ystod yr Wythnos Hinsawdd bod hwn yn argyfwng Natur a Hinsawdd.

- Bydd y Rhaglen Natur a Ni yn cau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon ac mae wedi sicrhau gwerthusiad proses o'r rhaglen a ddylai gael ei gwblhau ym mis Chwefror. Bydd y gwaith o olrhain ac ymgorffori'r ymateb ac adrodd ar gamau gweithredu tuag at y weledigaeth yn cael eu cadw o fewn y Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu.
- Mae digwyddiad yn yr arfaeth ar gyfer Diwrnod Amgylchedd y Byd (5 Mehefin 2024) i ddod â rhanddeiliaid ynghyd i adrodd ar gynnydd cyfunol tuag at y Weledigaeth. Bydd yn gyfle gwerthfawr i adolygu camau gweithredu tuag at gyflawni'r Weledigaeth a herio ar y cyd faint o gynnydd mae Tîm Cymru wedi'i wneud. Bydd aelodau o'r Cynulliad Dinasyddion yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y digwyddiad hwn.

Argymhelliad

- Bod y Bwrdd yn nodi ac yn cefnogi'r ymateb i Weledigaeth Natur a Ni.

Mynegai Atodiadau

Darparu unrhyw wybodaeth ategol:

Atodiad 1 – Llythyr Agored drafft gan Clare Pillman at bobl Cymru.

Y Broses Gymeradwyo / Ymgynghori

Proses Gymeradwyo/Ymgynghori	Russell De'ath Kate Evans
Yn gyfrifol:	Serinde van Wijk Sarah Williams
Yn atebol:	Prys Davies
Ymgynghorwyd:	Bwrdd Rhaglen Natur a Ni Y Tîm Gweithredol
Hysbyswyd:	I'w hysbysu: Staff CNC Rhanddeiliaid allanol

Atodiad 1

Ymateb i Natur a Ni: Y Weledigaeth Gyffredin i Gymru.

Wrth i'r blaned gynhesu a'r llygredd a achosir gan weithgarwch dynol gynyddu, mae byd natur yng Nghymru ar y dibyn. Mae tywydd eithafol ar gynydd ac mae bioamrywiaeth yn lleihau. Bellach mae'r galw am yr adnoddau naturiol sy'n cefnogi pob agwedd ar ein bywyd yn drech na gallu ein planed i'w hadnewyddu.

Ond mae yna obaith. Yn gynharach eleni rhyddhawyd gweledigaeth Natur a Ni. Fe'i lluniwyd gan bobl yng Nghymru, ac mae'n dychmygu bywyd yn 2050, lle mae cymdeithas a byd natur yn ffynnu gyda'i gilydd. Mae'n datblygu ac yn diweddarau'r sgwrs "Y Gymru a Garem" yn 2015, y datblygwyd Nodau Llesiant Cymru ohoni. Mae hefyd yn ategu gwaith gan yr RSPB, WWF a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar lefel y DU ar "Gynllun Natur y Bobl" - ac yn rhannu llawer o themâu sy'n gyffredin â'r darn hwnnw o waith. Rydym wedi edrych ar ein rôl yng nghyd-destun y Cynllun ac wedi adlewyrchu hynny yn yr ymateb hwn.

Rwy'n ysgrifennu'r llythyr hwn i rannu ymateb CNC i'r darnau hanfodol bwysig hyn o ymwneud â dinasyddion â chi, ac i'ch gwahodd chi fel cyrff cyhoeddus i ymateb ac i ymrwymo i weithredu ar y weledigaeth gyffredin hon ar gyfer y dyfodol. Rwyf hefyd yn cynnig cymorth os oes angen, i ddeall beth mae'r weledigaeth hon yn ei olygu i'ch sefydliad chi, a sut y gallwn gydweithio fel y gallwch chi ddatblygu ymateb cwbl ystyriol.

Mae Gweledigaeth Natur a Ni yn gosod her ysbrydoledig i'r Llywodraeth, i Gyrff Cyhoeddus ac i'r trydydd sector yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd a chyda dinasyddion i ddod o hyd i atebion i'r argyfwng natur a hinsawdd. Yn fyr, mae'n galw am sefyllfa yn 2050, lle bydd:

- Pobl a'r Llywodraeth yn ymrwymo ar y cyd i warchod yr amgylchedd naturiol.
- Arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru yn helpu'r cyhoedd i gymryd mwy o ran mewn penderfyniadau am fyd natur.
- Rhannu gwybodaeth yn helpu pobl i ddeall sut mae byd natur yn effeithio ar eu bywydau, a'r camau y gallan nhw eu cymryd i helpu i warchod ac adfer yr amgylchedd naturiol.
- Mynediad eang i fyd natur yn helpu pobl ledled Cymru i fyw bywydau hapus ac iach.
- Opsiynau gwyrddach ar gyfer trafniadaeth ac ynni yn galluogi mwy o bobl i wneud dewisiadau ecogyfeillgar yn eu bywydau bob dydd.
- Rheoli tir yn gynaliadwy yn helpu cymunedau i brynu bwyd lleol a themlo cysylltiad â thir Cymru.

(Am fwy o fanylion gweler www.naturani.cymru)

Rwyf wedi adolygu'r galwadau hyn ochr yn ochr â'n Cynllun Corfforaethol newydd, sef Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd – a hynny er mwyn gofyn a ydym ni ein hunain yn mynd yn ddigon pell i gyflawni'r weledigaeth. Rwyf wedi dod i'r casgliad bod angen cymorth rhannau eraill o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn fwy nag erioed i gyflawni hyn. Wrth i bawb wynebu cyllidebau anodd, mae angen i ni gyd anelu'n uwch o ran natur, ac ar gyfer llesiant cenedlaethau heddiw ac yfory.

O ystyried ein rôl benodol fel pencampwr yr amgylchedd yng Nghymru, bydd CNC yn gwneud hyn yn y ffyrdd canlynol:

Ymrwymiad ar y cyd

Byddwn yn helpu cyrff eraill i ddeall manteision cadarnhaol natur ac yn eu cefnogi i adlewyrchu hyn yn eu cynlluniau busnes. Trwy gael camau gweithredu a chanlyniadau mesuradwy go iawn gellir adfer byd natur, a lleihau ein heffaith arno, gan adeiladu ar y dyletswyddau bioamrywiaeth "adran 6" presennol y mae awdurdodau cyhoeddus yn eu hysgwyddo. Byddwn yn helpu eraill, gan weithio gydag Archwilio Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i ganfod a dileu rhwystrwyr a rhannu arfer da. Bydd y sefydliadau hynny sydd wedi ymgorffori'r ddyletswydd bioamrywiaeth (i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau) nid yn unig o fewn rhannau bach o'u swyddogaethau, ond wedi'u hintegreiddio ar draws eu prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, yn cael eu defnyddio fel enghreifftiau da. Bydd hynny yn ein helpu i ysbrydoli cyrff eraill a allai fod yn cael trafferth gyda'r ddyletswydd hon.

Cynnwys pobl

Byddwn yn cyflawni rôl arweiniol yng Nghymru ynglŷn â chynnwys pobl i weithio o blaid natur – boed hynny drwy gyflwyno tystiolaeth neu waith fel eiriolwyr, hwyluswyr a chynullwyr, neu drwy alluogi a grymuso cymunedau i weithredu fel rhan o'n gwaith ni ein hunain, neu mewn partneriaeth ag eraill ac yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd. O ganlyniad, bydd mwy o bobl yn gallu cymryd rhan yn y broses benderfynu a llunio dyfodol sy'n bositif i fyd natur.

Nid yw pawb yn rhannu ein hangerdd a'n hymrwymiad dros natur, nac yn cytuno â'r trawsnewidiadau sydd eu hangen i wireddu dyfodol lle mae cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd. Byddwn yn helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o farn y cyhoedd ar natur ac ymatebion i'r hinsawdd er mwyn sicrhau trawsnewidiad cyfiawn, er enghraifft, trwy drefnu grwpiau o bobl sy'n rhannu gwerthoedd ynghylch materion dadleuol er mwyn i bob anghydraddoldeb gael ei ystyried yn llawn.

Rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth

Byddwn yn gwella ein ffyrdd o rannu ein gwybodaeth a'n dirnadaeth - mewn perthynas â'r wyddoniaeth ynghylch argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd, a'r modd yr ydym yn cefnogi sefydliadau a chymunedau cyhoeddus a phreifat i ddeall y cyfraniad y gallan nhw ei wneud. Erbyn 2030, ein huchelgais yw y bydd ein tystiolaeth, ein cyngor a'n gwybodaeth i gyd yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu gan ein holl gymdeithion, ac yn arwain at weithredu cyflym, cydweithio newydd, a gwneud penderfyniadau integredig ar gyfer argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd.

Fel rhan o hyn, rydym yn cydnabod yr angen i ehangu ein rhwydweithiau a'n partneriaethau strategol, fel ein bod yn mynd ati i wrando ar gynulleidfa ehangach a datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer arloesi neu weithio'n wahanol. Byddwn hefyd yn mabwysiadu'r hyn a ddysgwyd yn sgil Natur a Ni i wella'r modd y byddwn yn sicrhau cyfranogiad y cymunedau yn ein gwaith.

Mynediad at natur

Byddwn yn parhau i arallgyfeirio'r tir yn ein gofal er mwyn sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i bobl fwynhau natur, a chefnogi cymunedau cydlynol a gwydn, wrth greu lleoedd i natur ffynnu. Byddwn yn gweithio gydag eraill i gynyddu cyfran y boblogaeth sydd â mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd uchel ac sy'n eu defnyddio, gan sicrhau bod amgylcheddau lleol yn parhau i gyfrannu at iechyd a lles pobl mewn hinsawdd sy'n newid.

Byddwn yn parhau i arddangos sut rydym yn cefnogi natur a thrawsnewidiadau hinsawdd cadarnhaol drwy ein rheolaeth ar ystadau a chaffael, gan fod yn barod i gael ein herio i sicrhau ein bod ni'n gallu gwneud ein gwaith hyd yn oed yn well.

Mae llawer o'n gwaith rheoleiddio yn canolbwyntio ar leihau lefelau niweidiol o lygredd aer, tir a dŵr, a byddwn yn cymhwyso'r gwaith hwn i ymateb i'r galwadau a wneir yn y weledigaeth i fynd i'r afael â phob anghydraddoldeb sy'n wynebu cymunedau wrth geisio mynediad i amgylcheddau iach.

Systemau mwy gwyrdd a bwyd cynaliadwy

Byddwn yn datblygu safbwyntiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar faterion nad ydynt o bosibl o fewn ein cylch gwaith, ond sy'n gysylltiedig â'r trawsnewidiadau sydd eu hangen tuag at ddyfodol sy'n bositif i natur (fel ynni, iechyd, bwyd a thrafnidiaeth). Byddwn yn defnyddio ein tystiolaeth a lle bo hynny'n ddefnyddiol, yn siarad o blaid polisiâu cyrff cyhoeddus eraill a'r Llywodraeth sy'n cyfrannu at fynd i'r afael ag argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd.

Byddwn yn mynd ati i gefnogi diwydiant i gyflawni'r datblygiadau arloesol sydd eu hangen i ddatgarboneiddio ac addasu i heriau argyfyngau natur, yr hinsawdd a llygredd. Rydym eisoes wrthi'n llunio'r gwaith o weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yng Nghymru. Byddwn yn cadw ffocws ehangach ar effaith newidiadau byd-eang mewn systemau bwyd a diogelwch bwyd ar y gymuned ffermio, byd natur a phobl Cymru, i helpu i lunio'r hyn sydd orau ar gyfer lles yn y tymor hir.

Dangos ein hymrwymiad

Fel ymrwymiad i'r bobl sy'n ymwneud â datblygu'r weledigaeth gyffredin hon, byddwn yn defnyddio ein prosesau adrodd i ddangos y camau yr ydym wedi'u cymryd. Er enghraifft, byddwn yn casglu ac yn adrodd ar yr effaith a gaiff ein gweithredoedd ar bobl a byd natur yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Diwrnod Amgylchedd y Byd, 5 Mehefin 2024

I ddathlu'r holl ymdrechion sy'n cael eu gwneud ledled Cymru i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd, a chreu dyfodol lle mae cymdeithas a byd natur yn ffynnu gyda'i gilydd, rwy'n bwriadu cynnal digwyddiad gyda Chomisiwn y Senedd ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd 2024 (dydd Mercher 5 Mehefin).

Bydd y digwyddiad yn gyfle i arddangos ymdrechion gorau'r sectorau cyhoeddus a phreifat i wreiddio gweledigaeth Natur a Ni yn ein gwaith. Rwy'n credu y bydd y digwyddiad hwn yn helpu i ysbrydoli a chefnogi eraill i wneud yr un peth. Yn bwysicaf oll, bydd yn gyfle i ni i gyd ddangos i bobl Cymru sut rydym wedi ystyried eu mewnbwn fel rhan o'r sgwrs genedlaethol barhaus hon.

Os yw eich sefydliad yn dymuno bod yn rhan o'r digwyddiad hwnnw, hoffem glywed gennych yn fawr.

Bydd sefydliadau sy'n nodi a chyhoeddi eu hymateb eu hunain i'r weledigaeth yn cael cynnig gwahoddiad i'r digwyddiad, a chyfle yn ystod y dydd i arddangos eich ymrwymiad a'r newidiadau sydd gennych ar y gweill.

Os oes angen mwy o amser arnoch i ystyried beth yw goblygiadau mabwysiadu'r weledigaeth gyffredin, gallwn gynnig cymorth pellach, gan gynnwys ystyried y llwybrau at 2050 a ddisgrifir yn y weledigaeth, a mapio sut mae gweithgareddau cyfredol eich sefydliadau yn cyfrannu. Dyma gyfle

gwirioneddol i greu partneriaethau newydd i fynd i'r afael â rhai o'r heriau gweithredol a diwylliannol mwyaf sy'n ein hwynebu wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd.

Gyda'n gilydd, gallwn greu dyfodol lle mae cymdeithas a byd natur yn ffynnu gyda'i gilydd.

DRAFT

Annex 1

Response to Nature and Us: The Shared Vision for Wales.

The warming planet and increasing pollution caused by human activity is driving nature in Wales towards collapse. Extreme weather is on the increase and biodiversity is declining. The demand for the natural resources that support every aspect of our lives is now outstripping our planet's ability to renew them.

But there is hope. Earlier this year the Nature and Us vision was released, created by people in Wales, that imagined life in 2050, where society and nature thrive together. It builds on and updates aspects of the "Wales we Want" conversation in 2015, from which the Well-being Goals for Wales were developed. It also complements work by RSPB, WWF and National Trust at a UK level on a "People's Plan for Nature" (PPN) – and shares many themes in common with that piece of work. We've looked at our role in the context of the PPN and have reflected that in this response.

I'm writing this letter to share NRW's response to these crucially important pieces of citizen involvement, and to invite you as public bodies to respond and commit to act on this shared vision for the future. I am also offering support if needed, to understand what this vision means for your own organisation, and how we can work together so that you can develop a fully considered response.

The Nature and Us Vision sets out an inspirational challenge for Government, Public Bodies, and third sector within Wales to work together and with citizens in finding solutions to the nature and climate emergency. In short it calls for a 2050, where:

- People and Government have a shared commitment to protecting the natural environment.
- Clear leadership from the Welsh Government helps the public to be more involved in decisions about nature.
- Sharing knowledge helps people understand how nature impacts their lives, and the actions they can take to help protect and restore the natural environment.
- Widespread access to nature helps people across Wales live happy and healthy lives.
- Greener transport and energy options enable more people to make environmentally friendly choices in their day to day lives
- Sustainable land management helps communities buy local food and feel connected to the Welsh land.

(For more detail see www.natureandus.wales)

Staff across NRW have reviewed these calls alongside our new Corporate Plan Nature and People Thriving Together – to challenge ourselves on whether we go far enough in meeting the vision. I've concluded that now more than ever we need the help of other parts of the public service in Wales to achieve this. At a time where we are all suffering budgetary challenges, we need to collectively raise the bar for nature, and for the well-being of current and future generations.

Given our specific role as the champion of the Welsh environment, NRW will do this in the following ways:

A shared commitment

We will help other bodies understand the positive benefits of nature and support them to reflect this in their business plans. This means real measurable outcomes and actions that will enable nature's recovery, and reduce our impact on it, building on the existing "section 6" biodiversity duties on public authorities. We will help others, working with Audit Wales and the Future Generations Commissioner, identify and remove blockers and share good practice. We will exemplify those organisations who have embedded the biodiversity duty (to seek to maintain and enhance biodiversity in the exercise of their functions) not just within small parts of their functions, but integrated across their governance and decision-making processes. In doing so, we can help to inspire other bodies that may be struggling with this duty.

Involving people

We will provide a leadership role in Wales in relation to involving people in action for nature – whether that's through our evidence communication or advocacy, as facilitators and conveners, or through enabling and empowering communities to act as part of our own work, or in partnership with others and in line with the National Principles for Public Engagement. As a result, more people will be able to participate in decision-making shaping a nature positive future.

Not everyone shares our passion and commitment for nature, nor agrees with the transformations needed to realise a future where society and nature thrive together. We will help to develop a better understanding of public opinion on nature and climate responses to ensure a just transition, for example, by convening groups to identify shared values around contested issues and so that any inequalities are fully considered.

Sharing knowledge and understanding

We will improve the ways in which we share our knowledge and insights – both in relation to the science around the nature, climate and pollution emergencies, and how we support public and private organisations and communities to understand the contribution that they can make. Our ambition is that by 2030 our evidence, advice and collective knowledge will be valued and respected by all we work with, leading to accelerated action, new collaborations, and integrated decision-making for the nature, climate and pollution crises.

As part of this we recognise the need to broaden our networks and strategic partnerships, so that we are actively listening to a wider audience and develop new opportunities for innovation or working differently. We will also adopt the learning gained from Nature and Us to improve how we involve communities in our work.

Access to nature

We will continue to diversify the land in our care so that it maximises opportunities for people to enjoy nature, and supports cohesive and resilient communities, whilst creating spaces for nature to thrive. We will work with others to increase the proportion of the population who have access to and are using high quality green space, and ensure local environments continue to contribute to people's health and well-being in a changing climate.

We will continue to showcase how we are supporting nature and climate positive transformations through our procurement and estate management, welcoming challenge to ensure that we can be even better in what we do.

Much of our regulatory work is centred around minimising harmful levels of pollution to air, land and water, and we will apply this work to respond to the calls made in the vision to address the inequalities that communities face in their access to healthy environments.

Greener systems and sustainable food

We will develop evidence-based positions on issues that might not be directly within our remit, but that are connected to the transformations needed towards a nature positive future (such as energy, health, food and transport). We will use our evidence and where helpful, vocally support policies of other public bodies and Government that contribute to addressing the nature, climate and pollution emergencies.

We will be proactive in supporting industry to take the innovations needed to decarbonise and adapt to the challenges of the nature, climate and pollution emergencies. We are already actively involved in shaping the implementation of the Sustainable Farming Scheme in Wales. We will maintain a wider focus on global shifts in food systems and food security on the farming community, nature, and people of Wales, to help shape what is best for well-being in the long-term.

Demonstrating our commitment

As a commitment to the people involved in the development of this shared vision, we will use our reporting processes to demonstrate the actions we have taken. For example, we will capture and report on the impact that our actions have on people and nature both directly and indirectly.

World Environment Day 5th June 2024

To celebrate the collective efforts being made across Wales to address the nature, climate and pollution emergencies, and to create a future where society and nature thrive together, I am planning to host an event with the Senedd Commission on World Environment Day 2024 (Wednesday 5th June).

The event will be an opportunity to showcase the best of the public and private sectors' efforts to embed the Nature and Us vision into our work. I believe this event will help to inspire and support others do the same. Most importantly, it will be a chance for us all to show the people of Wales how we have taken on board their input as part of this ongoing national conversation.

If your organisation wishes to be a part of that event, then we would very much like to hear from you.

Organisations that set out and publish their own response to the vision, will be offered an invitation to the event, and a space throughout the day to showcase the changes and demonstrate your commitment.

If you need more time to think through the implications of adopting the shared vision, we can offer further support, including with looking at the pathways to the 2050 described in the vision, and with mapping how your organisations' current activities contribute. This is a real opportunity to create new partnerships to tackle some of the biggest operational and cultural challenges that we face in addressing the nature, climate and pollution emergencies.

Together, we can create a future where society and nature thrive together.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	16 Tachwedd 2023
Teitl y Papur:	Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes 2023-24 ac Adroddiad Perfformiad Mewnol 2023/24
Cyfeirnod y Papur:	23-11-B21
Noddir y papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Paratowyd y papur gan:	Sioni Davies, Cynghorydd, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol
Cyflwynir y papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Pwrpas y papur	Cymeradwyo Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes Ch2 ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Ch2
Crynodeb	<p>Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes Ch2 a'r Adroddiad Perfformiad Mewnol ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Medi 2023.</p> <p>Yn ystod y cyfnod hwn, ni chafwyd unrhyw gofnodion Coch ar Ddangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes, ond rydym wedi gweld nifer y cofnodion Oren yn codi i saith, gyda gostyngiad cyfatebol yn nifer y cofnodion Gwyrdd. Cyflwynwyd rheolaethau tynnach ar gyllidebau recriwtio a di-staff i reoli'r pwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn ym mis Awst 2023, ac rydym yn parhau i fonitro effaith y rheolaethau hyn ar gyflawniad ein Cynllun Busnes. Yn gyffredinol, nid yw perchnogion mesurau (ac eithrio un) yn nodi materion adnoddau fel ffactor sy'n rhwystro cyflawniad yn Chwarter 2. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn ofalus yn Chwarter 3.</p>

Mater

1. Mae ail chwarter cylch adrodd perfformiad Cynllun Busnes 23/24 wedi'i gwblhau. Mae'r papur hwn yn gyfle i Fwrdd CNC graffu ar berfformiad yr ail chwarter.

Cefndir

2. Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes yw un o brif ffyrdd Bwrdd CNC o graffu ar gyflawniad. Fe'i datblygwyd ochr yn ochr â Chynllun Busnes 2023/24, gan weithio gyda Bwrdd CNC, y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain. Mae'r Cynllun Busnes blynyddol hwn yn ymwneud â'n Cynllun Corfforaethol hyd at fis Mawrth 2030.
3. Rydym yn datblygu fframwaith perfformiad i eistedd ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol newydd: yn y cyfamser, mae dangosfwrdd y Cynllun Busnes hwn yn adlewyrchu mesurau a gariwyd ymlaen o 2022/23 i raddau helaeth, wedi'u trefnu o amgylch ein tri Amcan Llesiant newydd.
4. Mae Adroddiad Perfformiad Dangosfwrdd y Cynllun Busnes i'w weld yn Atodiad 1 ac mae'n cynnwys:
 - **Dangosfwrdd** yn rhoi trosolwg o berfformiad yn erbyn mesurau 2023/24 a nodir gan yr Amcanion Llesiant a adlewyrchir yn ein Cynllun Corfforaethol newydd a Chynllun Busnes blynyddol 23/24.
 - **Manylion ar gyfer pob mesur penodol** gyda'u safle presennol (Chwarter 2) a'u safle disgwylidig ar ddiwedd y flwyddyn, a nodir yn ôl Amcan Llesiant.
5. Yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Awst 2023 ynghylch y pwysau ar gyllideb CNC ar gyfer 23/24, a oedd yn cynnwys oedi wrth recriwtio, dechreuodd adolygiad yn Chwarter 2 i ystyried ein gallu i gyflawni'r mesurau yn llawn (fel statws Gwyrdd) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r disgwyliadau ar gyfer diwedd y flwyddyn yn y pwynt canol blwyddyn hwn yn gadarnhaol, a rhagwelir y bydd 21 o'r 22 mesur yn Wyrdd, sy'n awgrymu nad yw'r cyfyngiadau hyn yn amharu ar ein gallu i gyflawni'r targedau diwedd blwyddyn. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa hon yn Chwarter 3.
6. Mae'r Adroddiad Perfformiad Mewnol i'w weld yn Atodiad 2 ac mae'n cynnwys 11 mesur â ffocws mewnol, fel yn 2022/23, gyda'u safle presennol (Chwarter 2) a'u safle disgwylidig ar ddiwedd y flwyddyn.

Asesiad

7. Gofynnir i Fwrdd CNC graffu a chymeradwyo Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes, gan nodi'r materion allweddol isod. Mae rhagor o fanylion yn yr adroddiad ei hun (Atodiad 1):

	Chwarter 1 (1 Ebrill – 30 Mehfin 2023)	Chwarter 2 (1 Gorffennaf – 30 Medi 2023)	Chwarter 3 (1 Hydref – 31 Rhagfyr 2023)	Rhagolygon Chwarter 4 Diwedd Blwyddyn (hyd at 31 Mawrth 2024)	Diwedd Blwyddyn Gwirioneddol (hyd at 31 Mawrth 2024)
Coch	0	0		0	
Oren	2	7		1	
Gwyrdd	20	15		21	
Cyfanswm	22	22		22	

8. Mae saith mesur Oren yn Ch2:

Ardal o goetir newydd a grëwyd ar y tir yn ein gofal

Ein carreg filltir ar gyfer y chwarter hwn yw bod wedi gwneud cynnydd digonol tuag at y mesur diwedd blwyddyn i fod yn hyderus y bydd yn cael ei gyflawni. Mae 128 hectar o dir wedi'i gaffael neu'n cael ei gwblhau ar gyfer creu coetir ar ddiwedd Ch2. Mae caniatadau rheoleiddio o dan Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar y gweill. Fodd bynnag, rydym y tu ôl i'r man lle roeddem am fod ar ddiwedd Ch2 ac mae'r mesur hwn yn Oren ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym wedi ailasesu'r rhaglen debygol ar gyfer y flwyddyn ac wedi cryfhau tîm y prosiect ymhellach. Rydym wedi cynyddu'r rhagolwg a wnaethom adeg yr Adroddiad diwethaf ac, os caiff ei gyflawni, byddwn yn cyrraedd ein targedau diwedd blwyddyn. Rydym yn disgwyl y byddwn yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn.

Cynhyrchu Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (FRMP)

Nid ydym wedi cwblhau ein carreg filltir o gyhoeddi'r FRMP, sy'n gwneud y mesur hwn yn Oren yn Ch2 (Gwyrdd yn flaenorol). Rydym wedi bod yn cwblhau'r Cynllun ac yn mynd i'r afael â sylwadau ac adborth o'r ymgynghoriad allanol, ac mae bellach yn y camau olaf o ran ei olygu, ei gyfieithu a'i baratoi i'w gyhoeddi ar ein gwefan. Ein cynllun ar hyn o bryd yw cyhoeddi'r FRMP ym mis Tachwedd 2023 a rhyddhau cynhyrchion cyfathrebu cysylltiedig ochr yn ochr â hynny. Rydym yn disgwyl bod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn.

Eiddo sydd â lefel is o risg neu amddiffyniad parhaus drwy waith cyfalaf

Nid ydym wedi cyflawni ein carreg filltir ar gyfer y chwarter hwn, sef 690 o eiddo ychwanegol yn cael lefel barhaus o amddiffyniad (rhag llifogydd); gan amddiffyn 669 o eiddo erbyn diwedd y chwarter. Rydym yn disgwyl aros yn Oren y chwarter nesaf, a dychwelyd i Wyrdd erbyn diwedd y flwyddyn, gan gynnwys cwblhau'r cynllun sylweddol yn Rhydaman.

Gweithredu argymhellion / camau gweithredu Adolygiad Llifogydd

Nid ydym wedi cwblhau ein carreg filltir ar gyfer y chwarter hwn yn llwyr (cwblhau Adroddiad Cau Ardal Waith ac Adroddiad Pontio drafft). Nid ydym wedi cwblhau'r Adroddiad Cau Ardal Waith terfynol yn llwyr oherwydd yr angen i ddangos tystiolaeth well o rai o'r argymhellion yn yr adroddiad, ond mae'r gwaith drafftio'n mynd rhagddo'n dda ar gyfer yr Adroddiad Pontio. Bydd yr Adroddiad Cau Ardal Waith yn cael ei

gyflwyno i'w gymeradwyo yn ystod Ch3, ac rydym yn disgwyl bod yn Wyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.

Cyflwyno mewnbwn CNC i Raglenni Cynllunio Cwmnïau Dŵr

Nid ydym wedi cwblhau ein carreg filltir ar gyfer y chwarter hwn (cyngor i Lywodraeth Cymru ar ddatganiad ymateb cwmnïau dŵr ac argymhellion ar gyfer y cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a'r cynlluniau rhanbarthol terfynol). Gwnaethom gwblhau'r gweithgarwch hwn ar gyfer yr holl gynlluniau adnoddau dŵr yng Nghymru neu sy'n effeithio ar Gymru erbyn diwedd mis Medi 2023, ac eithrio ein cyngor i Lywodraeth Cymru ar ddatganiad ymateb Hafren Dyfrdwy, a ddychwelwyd ddechrau mis Hydref, felly rydym wedi adlewyrchu'r mesur hwn fel Oren. Rydym yn disgwyl bod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn

Ymateb i ddigwyddiadau a gategoreiddiwyd i ddechrau fel rhai 'Uchel' o fewn 4 awr

Nid ydym wedi cyrraedd ein targed ar gyfer y chwarter hwn, i ymateb i 95% o'r digwyddiadau hyn o fewn pedair awr, gan gyflawni 90% ar gyfer y chwarter. Er ein bod yn siomedig â'r dirywiad yn y perfformiad y chwarter hwn, rydym yn disgwyl bod yn Wyrdd erbyn diwedd y flwyddyn a pharhau i gefnogi gwelliannau wrth gofnodi digwyddiadau ac yn y system gofnodi a ddefnyddiwn ar gyfer hyn.

Penderfyniad ar ymateb gorfodi priodol o fewn 3 mis

Nid ydym wedi cyflawni ein carreg filltir ar gyfer y chwarter hwn (95% o benderfyniadau mewn perthynas â throseddau amgylcheddol yn cael eu gwneud o fewn tri mis, ac i gwblhau ein hadolygiad o argymhellion ar gyfer adolygu a gweithredu tasgau). Gwnaethom gyflawni 91% ar gyfer y chwarter hwn ac rydym wedi adolygu'r argymhellion adolygu tasgau yn y Grŵp Busnes Rheoleiddiol, ac mae camau gweithredu wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth Rheoleiddio.

9. Mae'r 15 mesur arall yn Wyrdd ar ddiwedd Ch2. Dyma rai i'w nodi:

Camau â blaenoriaeth sy'n cael eu cymryd ar safleoedd gwarchoddedig ledled Cymru i wella cyflwr nodweddion

Rydym wedi cwblhau ein carreg filltir ar gyfer y chwarter hwn, sef i 30% o'r camau gweithredu gael eu cwblhau / fod ar y gweill (gan wneud y mesur hwn yn Wyrdd). Roeddem yn gallu cofnodi camau gweithredu arfaethedig 2023-24 yn ein cronfa ddata 'Safle' yn Ch1 ac rydym wedi cynllunio 241 o gamau gweithredu i'w cwblhau neu i fod ar y gweill yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Erbyn dechrau mis Medi 2023, roedd 72 o gamau gweithredu ar y gweill a 45 wedi'u cwblhau. Mae hyn yn cyfateb i 49% o'r camau gweithredu yng nghynllun 2023-24, sy'n fwy na charreg filltir Ch2 o 30%.

Faint o bren a gynigir i'r farchnad

Rydym wedi cwblhau ein carreg filltir ar gyfer y chwarter hwn, sef gwneud digon o gynnydd i fod yn hyderus o gyflawni'r garreg filltir diwedd blwyddyn (gan wneud y mesur hwn yn Wyrdd). Erbyn e-werthiant mis Gorffennaf 2023, roeddem wedi cynnig 15% yn fwy na'r proffil gofynnol i gyrraedd ein targed diwedd blwyddyn. Rydym ar y trywydd iawn i fod wedi cynnig 558,000 m3 erbyn e-werthiant mis Hydref 2023.

Datblygu fflyd allyriadau isel a darparu ystad adeiledig allyriadau isel wedi'i haddasu ar gyfer yr hinsawdd

Ein carreg filltir ar gyfer y chwarter hwn oedd cwblhau cam un y fenter effeithlonrwydd dŵr ar draws ein hystad adeiledig rydym bellach wedi'i chwblhau drwy osod mesurau arbed dŵr ar draws 34 o safleoedd (gan wneud y mesur hwn yn Wyrdd). Yn anffodus, rydym yn disgwyl bod yn Oren ar ddiwedd y flwyddyn gan na fyddwn yn gallu cyflawni ein targed diwedd blwyddyn o gyflawni ein hymrwymadau rhaglen Adfywio ar gyfer 2023/24 (a chaffael gwaith adeiladu a gweithredu seilwaith gwefru cerbydau trydan integredig ledled CNC). Nid ydym wedi gallu caffael gwaith adeiladu a gweithredu seilwaith gwefru cerbydau trydan integredig ledled CNC. Mae strategaeth y fflyd wedi'i gohirio tan 2024/25, ond mae polisi prynu fflyd dros dro wedi'i fabwysiadu. Bydd y seilwaith cerbydau trydan yn cael ei gaffael yn Ch1 2024/25.

10. Gofynnir hefyd i Fwrdd CNC graffu a chymeradwyo'r Adroddiad Perfformiad Mewnol, gan nodi'r materion allweddol isod. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 2.

	Chwarter 1 (1 Ebrill – 30 Mehefin 2023)	Chwarter 2 (1 Gorffennaf – 30 Medi 2023)	Chwarter 3 (1 Hydref – 31 Rhagfyr 2023)	Rhagolygon Chwarter 4 (hyd at 31 Mawrth 2024)	Diwedd Blwyddyn Gwirioneddol (hyd at 31 Mawrth 2024)
Coch	2	0		0	
Oren	0	1		1	
Gwyrdd	8	9		9	
Heb ei adrodd	1	1		1	
Cyfanswm	11	11		11	

11. Nid oes gennym unrhyw fesurau Coch yn Ch2, a dim ond un Oren. Isod rydym yn tynnu sylw at ein mesur Oren. Mae'r holl fesurau eraill yn Wyrdd, ac eithrio un. Nid yw'r mesur Absenoldeb yn cael ei adrodd gan fod y fethodoleg adrodd wedi newid yn ddiweddar. Bydd y sefyllfa ddiweddaraf ar yr eitem hon yn cael ei hadrodd pan fydd wedi'i chadarnhau. Am fwy o fanylion, gweler Atodiad 2.

Sgwrs ar waith (cytundeb datblygu a blaenoriaethau)

Mae'r eitem hon yn Oren ar ddiwedd chwarter 2, sef 62% (byddai o leiaf 90% yn cael ei ystyried yn Wyrdd). Mae'r mesur hwn wedi gwella o Goch yn yr Adroddiad diwethaf o ganlyniad i nodiadau atgoffa i adlewyrchu cytundeb cynlluniau Sgwrs gyda staff. Bydd adroddiad yn tynnu sylw at danadrodd yn cael ei anfon at reolwyr. Rydym yn disgwyl bod yn Oren erbyn diwedd y flwyddyn.

Risgiau, Parodrwydd i Dderbyn Risg a chyfleoedd

12. Os nad yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir yn adlewyrchu'n gywir y cynnydd tuag at gyflawni'r Cynllun Busnes, a gweithrediad CNC fel sefydliad, ni fydd y Tîm Gweithredol a Bwrdd CNC yn gallu cyflawni ei rôl o graffu ar gyflawniad.

Goblygiadau ehangach

13. **Cyllid:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol o ran darparu'r adroddiad perfformiad ei hun, ond mae'n amlwg bod rhan o'n hadolygiad chwarterol yn ystyried dyraniad ein hadnoddau ac felly mae cysylltiad agos rhwng papurau cyllid a pherfformiad.
14. **Cydraddoldeb:** Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb perthnasol yn cwmpasu ein Cynllun Corfforaethol 2030, Datganiad Llesiant a Chynllun Busnes 2023/24.

Camau Nesaf

